



Y PANEL TROSOLWG ANNIBYNNOL AR WASANAETHAU MAMOLAETH

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Adroddiad Cynnydd Chwarterol
Gaeaf 2020

Sefydlwyd y Panel Annibynnol gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i ganlyniadau adolygiad annibynnol o wasanaethau mamolaeth yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

RHAGAIR

Ar 30 Ebrill 2019, yn dilyn cyhoeddi adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwreagedd, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn rhoi'r gwasanaethau mamolaeth yng nghyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf mewn 'mesurau arbennig'.

Fel rhan o becyn o fesurau a luniwyd i gefnogi'i ymyriad, penododd y Gweinidog banel annibynnol i ddarparu'r oruchwyliaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn mynd i'r afael â'r methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol mewn modd amserol, agored a thryloyw sy'n rhoi'r menywod a'r teuluoedd yr effeithiodd yr adolygiad arnynt wrth galon y broses.

Mae gofyn i'r Panel gyflwyno adroddiad cynnydd chwarterol i'r Gweinidog.¹ Mae'r adroddiad hwn, yr ail i'w gyhoeddi hyd yma, yn cwmpasu cyfnod Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2019.

Mick Giannasi (Cadeirydd)

Cath Broderick (Aelod Lleyg)

Alan Cameron (Arweinydd Obstetreg)

Christine Bell (Arweinydd Bydwreigiaeth)

¹ **GWALL** - Gofynnwyd i'r Panel ei gwneud yn glir fod datganiad anghywir yn Adroddiad Cynnydd Chwarterol yr Hydref a gyhoeddwyd ar 08 Hydref 2019. Ymddangosodd hwn yn Adran 7.2 (tudalen 21), a dywedai fod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi rhoi 'adborth llafar cadarnhaol' am yr amgylchedd hyfforddi i fydwreagedd o dan hyfforddiant. Er bod rhywfaint o sail mewn ffaith i hyn, camddehonglodd y Panel yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd, gan briodoli'r sylwadau yn anghywir i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd wedi gorddweud hefyd wrth drafod y broses - byddai'n fwy cywir ei disgrifio fel cyfarfod gwirio cynnydd, yn hytrach nag adolygiad. Ar y sail honno, mae'r cyfeiriad wedi cael ei ddileu o'r ddogfen wreiddiol ac mae'r Panel wedi ymddiheuro i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am unrhyw anhwylystod a wynebwyd o ganlyniad i'r camgymeriad.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth



Mae **Mick Giannasi** (Cadeirydd) yn Gadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae ganddo brofiad helaeth o arwain ar lefel uwch, ac roedd yn arfer bod yn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Bu'n Gomisiynydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ac yn Brif Gwnstabl Heddlu Gwent.



Mae **Cath Broderick** (Aelod Lleyg) yn Gymrawd Anrhydeddus o Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, a hi yw awdur yr adroddiad *Gwrando ar Farn Menywod a Theuluoedd am Ofal Mamolaeth Cwm Taf* a gyhoeddwyd yn 2019. Mae ganddi brofiad helaeth o ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, ac roedd wedi cefnogi'r ymateb i Ymholiad Kirkup ym Mae Morcambe.



Mae gan **Alan Cameron** (Arweinydd Obstetreg) 26 mlynedd o brofiad fel Obstetregydd Ymgynghorol, a chafodd ei benodi'n Arweinydd Clinigol Cenedlaethol Obstetreg a Gynaecoleg ar gyfer Grŵp Cydweithredol yr Alban ar Wella Ansawdd Gwasanaethau Mamolaeth a Phlant yn ddiweddar.



Mae gan **Christine Bell** (Arweinydd Bydwreigiaeth) dros 30 mlynedd o brofiad o weithio fel bydwraig yn Lloegr. Am ddeg o'r rheini bu'n Bennaeth Bydwreigiaeth, ac mae'n Asesydd Bydwreigiaeth dynodedig gyda Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

TABL CYNNWYS

1	Crynodeb Gweithredol	1
1.1	Datblygiadau Cynnar.....	1
1.2	Cynnydd Pellach yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth	2
1.3	Arwyddion Eraill o Welliant.....	3
1.4	Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd.....	3
1.5	Adolygiadau Clinigol Annibynnol	4
1.6	Datblygu'r Sefydliad yn Ehangach	4
1.7	Materion Allweddol ac Elfennau i Ganolbwyntio arnynt.....	5
1.8	Crynodeb o'r Casgliadau a'r Camau Nesaf	7
2	Pwrpas a Fformat yr Adroddiad	8
3	Y Cefndir a'r Cyd-destun	10
4	Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd	12
4.1	Cynllunio, Paratoi a Chyflawni'r Gwaith Ymgysylltu a Chyfathrebu	12
4.2	Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Gymuned	12
4.3	Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r Digwyddiadau Ymgysylltu	14
4.4	Creu Cyfleoedd Ymgysylltu ar Bob Lefel.....	14
4.5	Cwynion, Pryderon a Chefnogaeth i Deuluoedd	15
4.6	Cynnwys Menywod a Theuluoedd ym Mhrosesau Cyfathrebu'r Panel	16
4.7	Ymgysylltu â'r Staff	16
5	Adolygiadau Clinigol Annibynnol.....	18
5.1	Grŵp y Prosiect Adolygiadau Clinigol	18
5.2	Recriwtio Adolygwyr Clinigol	18
5.3	Rhaglen Gynefino i Adolygwyr Clinigol	18
5.4	Grwpiau Adolygiadau Clinigol	19
5.5	Amserlenni ar gyfer Cwblhau'r Adolygiadau	20
5.6	Digwyddiadau ers mis Hydref 2018.....	20
5.7	Hunanatgyfeiriadau	21
6	Y Fframwaith Sicrwydd a'r Matrics Aeddfedrwydd	22
6.1	Defnyddio'r IPAAF – y cynnydd hyd yma	23
6.2	Datblygu'r IPAAF – y camau nesaf	25
7	Ymateb y Bwrdd Iechyd.....	26
7.1	Creu'r Sylfeini ar gyfer Gwelliannau Cynaliadwy	27

7.2	Y Tîm Gwella Mamolaeth – Capasiti a Chadernid.....	31
7.3	Cynllun i Ddatblygu'r Bwrdd Iechyd yn Ehangach.....	32
7.4	Yr Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd a gynhaliwyd ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru	33
8	Asesiad o'r Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth.....	34
8.1	Cynnydd pellach i gwblhau'r camau gweithredu 'gwneud yn ddiogel' a nodwyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	34
8.2	Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth	37
8.3	Datblygu'r Cynllun Gwella Mamolaeth	38
8.4	Ffynonellau eraill o wybodaeth a thystiolaeth.....	39
8.5	Asesiad cyffredinol o'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth	40
9	Y Casgliadau a'r Camau Nesaf.....	41
9.1	Y Prif Flaenoriaethau ar gyfer y Chwarter Nesaf.....	42
9.2	Argymhellion	42
10	Rhestr o atodiadau	43
11	Rhestr o Dermau	64

1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Cafodd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth ei benodi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu'r oruchwyliaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn mynd i'r afael â'r methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol mewn modd amserol, agored a thryloyw sy'n rhoi'r menywod a'r teuluoedd yr effeithiodd yr adolygiad arnynt wrth galon y broses.

1.1 DATBLYGIADAU CYNNAR

Yn Adroddiad Cynnydd Chwarterol yr Hydref, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, dywedodd y Panel fod y sylfeini ar gyfer gwella wedi'u sefydlu i raddau helaeth; arweinyddiaeth effeithiol, trefniadau priodol i reoli'r rhaglen, llinellau llywodraethu ac atebolrwydd clir ac ymrwymiad gwirioneddol i gyflawni newid ar lefel y Bwrdd a'r uwch arweinwyr. Roedd tystiolaeth hefyd fod sylw wedi'i roi i'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu hollbwysig a gafodd eu hargymell gan y Colegau Brenhinol er mwyn sicrhau diogelwch. Pan oedd y camau hynny yn dal yn waith ar y gweill, roedd rhesymau am hynny ac roedd systemau wedi'u sefydlu i fonitro a lliniaru unrhyw ganlyniadau gwael.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn cydweithio â'r Panel a rhanddeiliaid eraill i gyflawni ei Gynllun Gwella Mamolaeth² mewn amgylchedd o graffu trylwyr a herio. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi cydnabod hefyd fod yr hyn a oedd wrth wraidd y perfformiad gwael yn ymestyn y tu hwnt i'r gwasanaethau mamolaeth ac roedd cynllun ehangach i ddatblygu'r sefydliad, yn canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth a newid y diwylliant, wedi cael ei lunio ac ar fin cael ei weithredu.

Er bod cynnydd yn sicr yn cael ei wneud, dywedodd y Panel fod ffordd bell i fynd eto i greu'r gwasanaethau diogel, safonol, ymatebol a chynaliadwy y mae'r Bwrdd Iechyd am eu darparu i'w gymunedau, a galwodd am gyflymu'r gwaith, cydlynad a disgyblaeth weinyddol er mwyn cyflawni hynny.

Nododd y Panel hefyd gyfres o faterion yr oedd yn disgwyl gweld cynnydd yn eu herbyn erbyn y tro nesaf y byddai'n darparu adroddiad. Mae'r materion hyn a chrynodeb o'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn eu herbyn wedi'u nodi yn Adran 7 yr adroddiad.

² Cynllun gweithredu cyfunol yw'r Cynllun Gwella Mamolaeth, sy'n cynnwys 79 o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r 70 o argymhellion a ddeilliodd o adolygiad y Colegau Brenhinol, a'r naw argymhelliad arall a ddeilliodd o adolygiadau mewnol cysylltiedig.

1.2 CYNNYDD PELLACH YN ERBYN Y CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Gan adeiladu ar y seiliau cadarn hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud **cynnydd da** yn ystod mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr, ac mae'r Panel bellach yn **ofalus obeithiol** y caiff gwelliannau cynaliadwy hirdymor eu cyflawni yn y gwasanaethau mamolaeth wrth i'r rhaglen waith ddatblygu.

Mae tystiolaeth bendant o gynnydd pellach yn erbyn y 79 cam gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gwella Mamolaeth, ac arwyddion clir – a ategir gan wybodaeth o ystod o ffynonellau mewnol ac allanol – fod y gwasanaeth yn gwella yn fwy cyffredinol.

Mae'r gwelliant hwnnw i'w weld nid dim ond yn nhermau diogelwch ac ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu erbyn hyn, ond hefyd yn y ffaith fod y menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael gwell profiad, ac yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli, ei arwain a'i lywodraethu.

Yn arbennig, gwnaed cynnydd pellach yn erbyn y tri argymhelliad diogelwch hollbwysig a oedd yn dal yn waith ar y gweill, ac mae'r Panel wedi asesu tystiolaeth sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo fod 25 argymhelliad pellach wedi'u cyflawni ers yr adroddiad diwethaf. Mae hyn yn cynnwys:-

- gwella ansawdd yr hyfforddiant a roddir i staff meddygol a staff bydwreigiaeth, ynghyd â chyfraddau cydymffurfio uwch a chynlluniau cadarn ar gyfer cyflawni yn y dyfodol;
- creu fframwaith llywodraethu clinigol cynhwysfawr, gyda thystiolaeth glir fod y fframwaith bellach ar waith ac yn arwain at welliannau mewn ymarfer clinigol;
- cadarnhad fod y lefelau staffio mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio'n unol â nhw ym maes bydwreigiaeth a nyrsio dros y naw mis diwethaf yn cyd-fynd â'r lefelau sy'n cael eu hargymhell gan Birthrate Plus;
- datblygu proses archwiliadau clinigol a gwella'r prosesau a ddefnyddir i gofnodi digwyddiadau difrifol, i ymchwilio iddynt ac i ymateb iddynt;

Dros y chwech i'r deuddeg mis nesaf, bydd angen ailedrych o dro i dro ar nifer o'r argymhellion hyn i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu a'u bod yn dal wedi'u gwreiddio mewn arferion gweithredol. Bydd y Panel yn ymgorffori hyn yn ei raglen ymweliadau sicrwydd wrth symud ymlaen.

Mae Adran 8 yr adroddiad yn cynnwys asesiad mwy manwl o'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn y tri mis diwethaf o ran cyflawni'r Cynllun Gwella Mamolaeth ac, yn arbennig, cyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol.

1.3 ARWYDDION ERAILL O WELLIAN

Er bod y Panel wedi canolbwyntio ar sicrhau bod yna sylfaen dystiolaeth i ddangos cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth, mae yna hefyd wybodaeth arall, fwy ansoddol weithiau, sy'n dangos bod y gwasanaethau yn gwella a bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau menywod a theuluoedd. Er enghraifft:-

- dros y tri mis diwethaf, mae'r arolygon a gynhelir ddwywaith yr wythnos gan Wasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion y Bwrdd Iechyd wedi canfod lefelau cyson uchel o fodlonrwydd ymhlith menywod sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae tystiolaeth hefyd fod yr adborth yn gynyddol gadarnhaol ymhlith menywod a theuluoedd o ran ansawdd ac urddas y gofal sy'n cael ei ddarparu yng Nghanolfan Eni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg;
- mae'r adborth mwy cadarnhaol gan fenywod a theuluoedd yn cael ei gadarnhau i raddau sylweddol gan adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg, yn dilyn ymweliadau dirybudd ag Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn ystod mis Mehefin, Gorffennaf a Medi 2019;
- mae adroddiadau diweddar gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi amlygu gwelliannau graddol o ran yr amgylchedd hyfforddi a'r addysg a roddir i staff meddygol sy'n gweithio yn y tîm obstetreg, er bod angen sylw pellach o hyd ar rai elfennau.

Efallai mai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – a gyhoeddodd ei adroddiad ar arolygiad tridiau dirybudd o Ganolfan Eni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ym mis Medi – sydd wedi darparu'r dangosydd cynnydd mwyaf arwyddocaol hyd yma. Daw'r adroddiad hwn, a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2019, i'r casgliad yn gyffredinol *'fod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu'* a bod y staff *'yn dangos brwdfrydedd ac awydd clir i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, mewn amgylchedd cartrefol, hamddenol'*. Roedd angen gwella nifer bach o elfennau, ond nid oedd hynny'n awgrymu bod gwendidau sylfaenol yn y gwasanaeth.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn aros i gael canlyniad arolygiad dirybudd o'r gwasanaeth a ddarperir o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Cynhaliwyd yr arolygiad ym mis Tachwedd 2019. Disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir, a bydd yn darparu'r asesiad allanol pwysicaf eto o'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

Mae Adran 8 yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad mwy manwl o'r dangosyddion sy'n dangos bod y perfformiad yn gwella.

1.4 YMGYSYLLTU Â MENYWOD A THEULUOEDD

Gwnaed cynnydd da hefyd o ran gwella'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â menywod a theuluoedd, ac yn eu cynnwys nhw a'r gymuned ehangach i helpu i ddylunio a gwella gwasanaethau mamolaeth.

Gyda chefnogaeth y Panel a chyfraniad arbenigwr allanol, mae'r ddau Ddigwyddiad Ymgysylltu cyntaf wedi cael eu cynnal, a dysgwyd llawer iawn o'r broses. Yn gyffredinol, mae'r digwyddiadau wedi cael derbyniad da gan y menywod a'r teuluoedd a ddaeth iddynt, a hefyd gan yr aelodau staff sydd wedi cymryd rhan. Bydd y trydydd Digwyddiad Ymgysylltu yn cael ei gynnal ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Chwefror 2020. Ar ôl hynny, bydd yr hyn a ddysgwyd o'r broses yn cael ei werthuso. Hefyd, bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod sylw'n cael ei roi i'r themâu a'r materion allweddol a bod barn y rhai sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth, ac sy'n dal i'w ddefnyddio, yn cael ei hadlewyrchu mewn ymarfer.

Mae'r wybodaeth a ddysgwyd o'r ddau ddigwyddiad cyntaf yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i adolygu'r ffordd mae'n ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau yn ehangach. Bydd hyn yn help i wella effeithiolrwydd yr ymgysylltu corfforaethol a'r strategaeth cyfathrebu sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

Mae Adran 4 yr adroddiad yn cynnwys crynodeb mwy manwl o'r cynnydd a wnaed yn yr elfen hon.

1.5 ADOLYGIADAU CLINIGOL ANNIBYNNOL

Gwnaed cynnydd hefyd o ran gweithredu cam cyntaf y rhaglen adolygiadau clinigol; bydd yn ystyried, yn annibynnol, y gofal a ddarparwyd i ryw 140 o fenywod a babanod rhwng mis Ionawr 2016 a mis Hydref 2018, mewn achosion sy'n bodloni'r meini prawf a gytunwyd.

Mae'r timau amlddisgyblaethol o fydwragedd, obstetregwyr, anesthetyddion a neonatolegyddion a fydd yn cynnal yr adolygiadau wedi cael eu recriwtio ac wedi bod drwy raglen gynefino. Mae astudiaeth beilot wedi cael ei chynnal er mwyn 'profi'r' systemau sydd wedi'u sefydlu a sicrhau cysondeb. Mae'r menywod y mae eu gofal yn cael ei adolygu wedi cael gwybod am hynny, ac wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y broses os ydynt yn dymuno.

Mae Adran 5 yr adroddiad yn cynnwys crynodeb mwy manwl o'r cynnydd a wnaed i gyflwyno'r strategaeth ar gyfer adolygiadau clinigol.

1.6 DATBLYGU'R SEFYDLIAD YN EHANGACH

Yn gynnar yn y broses, cydnabuwyd ei bod yn annhebygol bod yr hyn a oedd wrth wraidd y methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol wedi'i gyfyngu i'r gwasanaethau mamolaeth. O ganlyniad i hynny, mae'r Bwrdd wedi dylunio rhaglen ehangach i ddatblygu'r sefydliad, ac wedi dechrau ei rhoi ar waith. Nod y rhaglen, ymysg materion eraill, yw gwella arweinyddiaeth a llywodraethu ar bob lefel ac ailddiffinio diwylliant a gwerthoedd y sefydliad. Mae'r gwaith o dan oruchwyliaeth y Panel i wella'r gwasanaethau mamolaeth yn dylanwadu ar y gwaith hwn, ac mae'r ddwy elfen yn ategu'i gilydd. Mae'r Panel wedi gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr dros dro a'i thîm i sicrhau bod y rhaglenni gwaith yn gyson â'i gilydd.

Yn arbennig, mae'r Panel yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y cynllun gweithredu sydd wedi'i ddatblygu mewn ymateb i'r Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd, a gynhaliwyd ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn gyson â'r Cynllun Gwella Mamolaeth, o ystyried bod llawer o'r materion yn rhai trawsbynciol.

Mae Adran 8 yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o sut mae'r gwaith ehangach i ddatblygu'r sefydliad yn helpu i gefnogi gwelliant yn y gwasanaethau mamolaeth.

1.7 MATERION ALLWEDDOL AC ELFENNAU I GANOLBWYNTIO ARNYNT

Er yr arwyddion amlwg o gynnydd a nodwyd yn yr adroddiad hwn, mae llawer iawn o waith eto i'w wneud i gyflawni'r holl argymhellion yn adolygiad y Colegau Brenhinol a'r argymhellion cysylltiedig eraill ac, yn fwy na hynny, i sicrhau bod y gwelliannau a wnaed hyd yma yn cael eu gwreiddio mewn ymarfer a'u bod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae dros ddwy ran o dair (68%) o'r camau gweithredu yn y Cynllun Gwella Mamolaeth yn dal yn waith ar y gweill, a bydd angen newid y diwylliant a'r arferion gweithredol ar gyfer nifer o'r camau gweithredu hynny er mwyn eu cwblhau. Mae profiad o sefyllfaoedd eraill yn dangos na fydd hynny'n digwydd dros nos.

Mae'r ymddygiad yn newid, ac mae'r rhan fwyaf o'r staff ar bob lefel wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig i'r heriau a nodwyd gan y Colegau Brenhinol; mae hyn yn amlwg o'r adborth mewn adolygiadau mewnol ac allanol, ac o'r hyn mae'r Panel ei hun wedi'i weld wrth ymweld â'r ysbytai a siarad â'r staff. Ond, mae ffordd bell i fynd eto i sicrhau'r newid go iawn sydd ei angen o ran agweddau a chredoau er mwyn cyflwyno gwelliannau cynaliadwy hirdymor.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod mai gwella'r canlyniadau i fenywod a theuluoedd yw'r prif amcan, a bod llawer o waith eto i'w wneud mewn elfennau pwysig – fel y cyfraddau ar gyfer toriadau Cesaraidd a chyfraddau cymell geni (inductions of labour) – er mwyn cyrraedd yr un safonau perfformiad â Byrddau Iechyd eraill. Wedi dweud hynny, mae tystiolaeth yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn arloesi o ran y ffordd mae'n mynd i'r afael â'r materion hyn, ac mae gweithgorau amlddisgyblaethol wedi cael eu sefydlu er mwyn dod o hyd i gyfleoedd i wella.

Yn yr un modd, er bod pethau'n sicr yn gwella'n raddol, mae angen cyflymu'r gwaith a sicrhau gwell disgyblaeth weinyddol o ran y ffordd mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'r broses newid. Yn benodol, roedd y Panel wedi gobeithio gweld mwy o gynnydd o ran datblygu'r Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF), a fydd yn golygu bod modd monitro ac asesu gwelliannau mewn canlyniadau dros gyfnod hir.

Mae gwaith hefyd i'w wneud i ddatblygu'r Cynllun Gwella Mamolaeth er mwyn iddo fod yn gynllun mwy deinamig ac ymatebol sy'n cynnwys cerrig milltir clir, targedau ac elfennau allweddol i'w cyflawni. Yn yr un modd, er bod y sylfeini yn eu lle erbyn hyn a chynlluniau cyflawni wedi cael eu datblygu, mae ffordd bell i fynd eto er mwyn gwella prosesau a systemau busnes allweddol – er enghraifft prosesau ar gyfer delio â chwynion a phryderon, a chasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac ymateb iddo.

Mae'r ffordd o ddelio â chwynion a phryderon yn dal yn achosi pryder. Mae cynnydd yn cael ei wneud, yn enwedig o ran ymateb o fewn cyfnod mwy priodol i atgyfeiriadau newydd, ond mae heriau sylweddol yn bodoli o hyd o ran delio â'r casgliad o hen gwynion sydd wedi cronni. Nid yw'r trefniadau presennol yn ddigon cydlynol, ac mae'r diwylliant yn dal yn amddiffynol ar brydiau, wrth i addewidion gael eu torri a therfynau amser gael eu methu weithiau. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun clir i fynd i'r afael â'r materion hyn, ond bydd angen ei gyflawni'n gyflym ac yn effeithiol os yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd i adennill hyder a ffydd y menywod a'r teuluoedd sydd wedi dioddef yn sgil y methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol.

Hefyd, mae bylchau o ran capasiti a gallu yn y Tîm Gwella wedi arwain at ganlyniadau. Er enghraifft, bu'n rhaid gohirio'r broses o gyflwyno'r rhaglen adolygiadau clinigol am fis oherwydd nad oedd y Panel yn ffyddiog bod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r broses ac, yn benodol, i sicrhau bod modd diwallu anghenion menywod a theuluoedd.

Mae nifer o ffactorau wedi arafu'r cynnydd – yn bennaf, absenoldebau annisgwyl ac nad oedd modd eu hosgoi mewn rolau hollbwysig yn y Tîm Gwella Mamolaeth, ac oedi allanol wrth recriwtio i swyddi allweddol.

Mae'r amgylchiadau wedi newid hefyd – er enghraifft, mae cwrpas a maint y rhaglen adolygiadau clinigol wedi cynyddu, ac mae hynny wedi arwain at oblygiadau ychwanegol o ran adnoddau ac wedi cynyddu'r llwyth gwaith. Mae'r gofynion i wneud cofnodion clinigol yn ddienw yn enghraifft o hynny.

Ddechrau mis Rhagfyr, roedd y Panel yn poeni mwy a mwy nad oedd gan y trefniadau ar gyfer gwella gwasanaethau mamolaeth y capasiti na'r cadernid angenrheidiol i gyflawni'r cynllun gwella ac i gefnogi'r rhaglen adolygiadau clinigol, ac i reoli'r broses o gyfathrebu ac ymgysylltu â menywod a theuluoedd. Hefyd, roedd y Panel yn dal yn poeni bod bylchau'n bodoli o ran gallu mewn elfennau hollbwysig, fel dadansoddi perfformiad, gwella ansawdd ac ymgysylltu â chleifion. Mewn rhai achosion, mae'r bylchau hynny'n cael eu llenwi gan staff clinigol sy'n llawn cymhelliant, yn ymroddgar ac yn meithrin profiad sylweddol, ond sydd ddim o reidrwydd yn meddu ar yr holl sgiliau arbenigol sydd eu hangen i gyflawni'r rôl ar hyn o bryd.

Mae'r materion hyn wedi cael eu codi gyda'r Bwrdd Iechyd, ac mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol. Llwyddwyd i ddod o hyd i rywfaint o gapasiti ychwanegol a mwy o hyblygrwydd, a bydd y Tîm Gwella Mamolaeth yn cael ei ailstrwythuro yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Mae hyn yn rhoi mwy o ffydd i'r Panel y bydd y broses yn symud ymlaen yn gyflymach a gyda gwell disgyblaeth weinyddol yn y chwarter nesaf.

Mae'r Panel hefyd wedi cael rhywfaint o adborth ynghylch bod yn glir am ddisgwyliadau, ac yn gyson o ran y ffordd mae'n gweithredu, ac mae hynny hefyd wedi cael ei ystyried.

Mae Adran 8 yr adroddiad yn crynhoi dadansoddiad mwy manwl o'r materion hyn.

1.8 CRYNODEB O'R CASGLIADAU A'R CAMAU NESAF

Er bod llawer o waith eto i'w wneud er mwyn cyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da yn ystod y chwarter diwethaf, ac mae'r Panel yn ofalus obeithiol y caiff gwelliannau cynaliadwy hirdymor eu cyflawni yn y gwasanaethau mamolaeth gyda hyn.

Ond mae angen cyflymu'r gwaith a chynyddu disgyblaeth weinyddol y Bwrdd Iechyd o ran y ffordd mae'n rheoli'r broses wella. Mae trafodaethau adeiladol wedi cael eu cynnal er mwyn cytuno ar strwythur diwygiedig a chynyddu'r capasiti, a fydd yn datrys y problemau hynny.

Dyma rai o'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer y tri mis nesaf:-

- gwneud gwaith pellach i ddatblygu'r Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd gyda metrigau mwy soffistigedig, blaenoriaethau cliriach a thargedau ymestynnol – ond posibl – dros amser;
- rhoi pwyslais ar y cyd ar ddatblygu'r elfennau hynny o'r Cynllun Gwella Mamolaeth sydd eto i'w cyflawni, er mwyn creu dogfen fwy deinamig sy'n newid drwy'r amser ac yn cynnwys camau gweithredu cliriach, cerrig milltir a chanlyniadau y gellir eu mesur;
- parhau â'r gwaith o gyflawni'r 54 o argymhellion yn y Cynllun sydd eto i'w cyflawni, a chanolbwyntio ar sicrhau bod yr argymhellion hynny sydd eisoes wedi'u cyflawni yn cael eu gwreiddio mewn arferion gweithredol;
- bwrw ymlaen â'r rhaglen adolygiadau clinigol i'r cam rhoi ar waith, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r menywod a'r teuluoedd perthnasol;
- cynnal gweddill y digwyddiadau ymgysylltu â menywod a theuluoedd, asesu'r canlyniadau a datblygu cynllun i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y gwaith.

Wrth ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud, ac ymrwymiad parhaus y Bwrdd Iechyd i'r broses wella, nid yw'r Panel yn teimlo bod angen gwneud unrhyw argymhellion penodol ar hyn o bryd.

2 PWRPAS A FFORMAT YR ADRODDIAD

Pwrrpas yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb o gynnydd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth wrth iddo gyflawni'r cylch gorchwyl a bennwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn benodol, mae'r adroddiad yn rhoi asesiad parhaus o gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth iddo gyflwyno'r gwelliannau mewn gwasanaethau mamolaeth a nodwyd fel rhai angenrheidiol gan y Colegau Brenhinol ac mewn adolygiadau cysylltiedig eraill. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys asesiadau o'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr adolygiad clinigol a'r elfennau ymgysylltu yng nghyfrifoldebau'r Panel.

Hwn yw ail adroddiad chwarterol y Panel, ac mae'n adlewyrchu'r datblygiadau a'r digwyddiadau a fu yn ystod mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2019. Mae'n adeiladu ar yr adroddiad chwarterol blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019. Er mwyn bod yn gryno, nid yw'r wybodaeth gefndirol a nodwyd yn yr adroddiad cyntaf yn cael ei hailadrodd.

Yn ogystal â thynnu sylw at yr elfennau hynny lle gwelwyd cynnydd, mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r materion a heriau allweddol sy'n cyfyngu ar y cynnydd, ac mae'n crynhoi'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd a/neu'r Panel yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'n anochel bod yr adroddiad yn sôn am gyfres o faterion sefydliadol ehangach y bydd angen rhoi sylw iddynt, er mwyn sicrhau bod y gwelliannau y mae angen eu gwneud yn y gwasanaethau mamolaeth yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae'r adroddiad wedi cael ei ddylunio i fod yn ddogfen ar gyfer y cyhoedd. Cyn belled ag y bo modd mewn dogfen o'r natur yma, mae'r adroddiad wedi cael ei ysgrifennu mewn iaith syml sy'n osgoi defnyddio termau technegol a gwybodaeth fanwl am berfformiad. Mae'n bwysig pwysleisio bod y Panel a'r Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a bod y casgliadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad yn cael eu hategu gan ddadansoddiad a gwybodaeth fwy manwl. Fodd bynnag, er mwyn cadw'r adroddiad yn fyr, mae'n bosibl na fydd y dystiolaeth ategol honno yn cael ei hamlinellu'n llawn bob tro yn yr adroddiad.

O gofio bod trefniadau rheoli perfformiad a rhaglen y Bwrdd Iechyd yng nghamau cynnar eu datblygiad, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys mwy o ddadansoddi ar sail naratif o gamau cynnar y broses wella nag y byddai'r Panel wedi'i ddymuno. Y bwriad yw y bydd adroddiadau dilynol yn fwy seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, wrth i'r Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd a gytunwyd â'r Bwrdd Iechyd – (edrychwch ar Adran 6 isod) – ddechrau datblygu.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n adrannau ar wahân:-

- Mae **Adran 3 (Y Cefndir a'r Cyd-destun)** yn crynhoi cefndir penderfyniad y Gweinidog i roi'r gwasanaethau mamolaeth mewn mesurau arbennig, ac yn egluro'n fyr iawn sut mae'r Panel wedi cael ei sefydlu i gyflawni ei gylch gorchwyl. Mae'r adran hon yn gryno yn fwriadol, gan fod adroddiad chwarterol cyntaf y Panel wedi sôn am hyn yn fanwl iawn;
- Mae **Adran 4 (Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd)** yn cynnwys asesiad o gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth iddo barhau i ddatblygu ei allu a'i gapasiti i ymgysylltu â menywod a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth;
- Mae **Adran 5 (Adolygiadau Clinigol Annibynnol)** yn egluro'r cynnydd a wnaed yn ystod y tri mis diwethaf o ran bwrw ymlaen â'r Strategaeth ar gyfer Adolygiadau Clinigol, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad chwarterol cyntaf ym mis Hydref 2019;
- Mae **Adran 6 (Y Fframwaith Sicrwydd a'r Matrics Aeddfedrwydd)** yn esbonio'r cynnydd a wnaed i ddatblygu'r Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF), a gytunwyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Panel, fel sail i asesu cynnydd a'r lefelau sicrwydd presennol. Mae hefyd yn egluro sut mae'r IPAAF yn llywio'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Gwella Gwasanaethau Mamolaeth;
- Mae **Adran 7 (Ymateb y Bwrdd Iechyd)** yn cynnwys asesiad o'r trefniadau mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u rhoi ar waith i ymateb i ymyriad y Gweinidog, ac mae'n sôn am yr elfennau y mae angen eu datblygu ymhellach er mwyn manteisio'n llawn ar y potensial i wella;
- Mae **Adran 8 (Asesiad o'r Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth)** yn cynnwys asesiad y Panel o'r cynnydd a wnaed hyd yma i gwblhau'r 79 o gamau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gwella Mamolaeth;
- Mae **Adran 9 (Y Casgliadau a'r Camau Nesaf)** yn egluro asesiad cyffredinol y Panel, ac yn datgan disgwyliadau'r Gweinidog o ran yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni ym mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020.

Wrth ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud, ac ymrwymiad parhaus y Bwrdd Iechyd i'r broses wella, nid yw'r Panel yn teimlo bod angen gwneud unrhyw argymhellion penodol pellach yn yr adroddiad hwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli nifer sylweddol o gynlluniau gweithredu ar hyn o bryd, ac nid yw'r Panel yn dymuno ychwanegu at y baich gweinyddol.

Ond, mae angen cymryd camau pellach mewn llawer o elfennau yn ystod y chwarter nesaf, er mwyn cynnal ac adeiladu ar y cynnydd sydd wedi cael ei wneud; mae'r 'camau gweithredu nesaf' wedi'u nodi yn yr adroddiad, a byddan nhw'n cael sylw gan y Bwrdd Iechyd drwy gylch busnes rheolaidd y Panel.

3 Y CEFNDIR A'R CYD-DESTUN

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr iawn o gefndir ymyriad y Gweinidog, ac esboniad cryno o rôl y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth.

Mae'r adran yn gryno yn fwriadol, oherwydd cafodd y cefndir ei egluro'n fanwl yn Adroddiad Chwarterol yr Hydref a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019. Gellir gweld yr adroddiad yn y fan yma. Fodd bynnag, dyma grynodeb o'r cefndir.

Ym mis Hydref 2018, yn dilyn pryderon cynyddol am ddiogelwch ac ansawdd y gofal yn yr unedau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, cafodd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad annibynnol.

Cafodd adroddiad y Colegau Brenhinol, a oedd yn amlinellu canfyddiadau eu hadolygiad, ei gyhoeddi ar 30 Ebrill 2019. Roedd yn amlygu pryderon difrifol ynghylch ansawdd a diogelwch a oedd yn cael eu dwysáu gan fethiannau o ran llywodraethu corfforaethol, cysylltiadau aneffeithiol, a diwylliant ac ymddygiad amhriodol. Roedd adroddiad atodol, a oedd yn cynnwys storïau rhai o'r menywod a'r teuluoedd a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth, yn cyfleu darlun pryderus o brofiadau cleifion a gwasanaeth a oedd yn bell iawn o'r safon dderbyniol.

Roedd adroddiad y Colegau Brenhinol yn cynnwys 70 o argymhellion i wella'r sefyllfa, a chafodd pob un ohonynt eu derbyn gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys argymhellion y dylid cynnal adolygiad clinigol annibynnol ar nifer o ddigwyddiadau difrifol a oedd wedi digwydd rhwng mis Ionawr 2016 a Medi 2018, ac y dylid edrych yn ôl i 2010 a chyn hynny o bosibl, os byddai angen.

Yn sgil canfyddiadau'r Colegau Brenhinol, ac fel rhan o becyn ehangach o ymyriadau, cafodd y gwasanaethau mamolaeth yng nghyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf eu rhoi mewn mesurau arbennig gan y Gweinidog.

Mae Adran 3 Adroddiad Chwarterol yr Hydref yn rhoi esboniad manylach o gefndir adolygiad y Colegau Brenhinol ac ymyriad y Gweinidog.

Ar yr un pryd, cafodd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth ei benodi gan y Gweinidog i geisio cael sicrwydd pendant gan y Bwrdd Iechyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Colegau Brenhinol yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon, ac mewn ffordd agored a thryloyw sy'n gofalu bod y menywod a'r teuluoedd yr effeithiodd yr adolygiad arnynt yn rhan ganolog o'r broses.

Mae copi o gylch gorchwyl y Panel i'w weld yn 'Atodiad A'.

Mae'r Panel wedi meithrin perthynas o gydweithio â'r Bwrdd Iechyd o'r dechrau, er mwyn lleihau unrhyw fiwrocratiaeth ddiangen ac osgoi dyblygu gwaith, gan gynnal amgylchedd o graffu trylwyr a herio ar yr un pryd.

Mae cylch busnes y Panel wedi'i sefydlu erbyn hyn, ac mae'n seiliedig ar gyfarfod misol ffurfiol y Panel ag amrywiaeth o randdeiliaid, a'r rheini'n sylwedyddion sy'n cymryd rhan yn y broses. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyngor Iechyd Cymuned a'r Undebau Llafur. Mae'r asiantaethau eraill yn cynnwys Uned Gyflawni'r GIG, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Adran 4 Adroddiad Chwarterol yr Hydref yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y Panel, ei gylch gorchwyl a'i fethodoleg gweithredu.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol i ymyriad y Gweinidog, ac wedi cyflwyno fframwaith a fydd yn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol yn y gwasanaethau mamolaeth. Mae hyn yn cynnwys penodi Uwchswyddog Cyfrifol ar lefel Bwrdd, sefydlu Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a fydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd drwy ei Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch (yr hen Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg), a chreu Tîm Gwella Mamolaeth sy'n rheoli'r broses o gyflawni'r Cynllun Gwella Mamolaeth, gyda chymorth tri grŵp prosiect.

Ar yr un pryd, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cydnabod bod rhai o'r materion a'r heriau sylfaenol a nodwyd gan y Colegau Brenhinol yn ymestyn y tu hwnt i'r gwasanaethau mamolaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rhaglen ddatblygu ar gyfer y sefydliad cyfan er mwyn ailddiffinio gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad, a gwella'r arweinyddiaeth a'r gwaith ymgysylltu ar bob lefel – o lefel Bwrdd i lefel weithredol.

Mae Adran 8 Adroddiad Chwarterol yr Hydref yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y ffordd mae'r Bwrdd Iechyd wedi trefnu ei hun er mwyn ymateb i adolygiad y Colegau Brenhinol.

4 YMGYSYLLTU Â MENYWOD A THEULUOEDD

Roedd Aelod Lleyg y Panel yn rhan o dîm y Colegau Brenhinol a gynhaliodd yr adolygiad, a hi oedd awdur yr adroddiad atodol, *'Gwrando ar farn menywod a theuluoedd'*. Yn sgil hynny, mae hi wedi gallu meithrin a chynnal perthynas gadarn â rhai o'r menywod a'r teuluoedd y mae'r adolygiad yn effeithio arnynt.

Mae hi hefyd wedi meithrin perthynas waith adeiladol ag aelodau staff allweddol yn y Bwrdd Iechyd (yn bennaf, y Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth a'r Fydwraig Ymgynghorol). O ganlyniad i hynny, mae wedi bod yn bosibl gwneud cynnydd yn gynnar yn y broses o ran ymgysylltu a chyfathrebu. Ar ôl bod yn rhan allweddol o'r broses o arwain a chydlynu'r gwaith yn ystod y cyfnodau cychwynnol, bydd yr Aelod Lleyg yn camu'n ôl fwy a mwy yn awr, er mwyn i'r Bwrdd Iechyd gymryd perchnogaeth dros arwain a chyfeiriad strategol elfen ymgysylltu a chyfathrebu'r Cynllun Gwella Mamolaeth. Mae hynny'n bwysig iawn.

Mae'r paragraffau canlynol yn sôn am y datblygiadau allweddol a fu yn ystod mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2019, ac yn cynnwys asesiad o beth arall y mae angen ei wneud o ran ymgysylltu a chyfathrebu.

4.1 CYNLLUNIO, PARATOI A CHYFLAWNI'R GWAITH YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU

Mae Grŵp y Prosiect Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd wedi'i hen sefydlu erbyn hyn, ac mae'n arwain gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu â menywod a theuluoedd yng nghyswllt gwasanaethau mamolaeth. Mae'r grŵp yn amlddisgyblaethol o ran ei aelodau ac yn cynnwys obstetryddion, bydwragedd, menywod a theuluoedd, ac arweinwyr ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion.

Mae cydweithio fel hyn yn arwain at fanteision sylweddol; mae'r grŵp wedi bod yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod y digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned – sy'n rhan ganolog o'r dull gweithredu – wedi creu cyfle i rannu gwybodaeth, i feithrin cysylltiadau ac i gael adborth am brofiadau pobl. Hefyd, yn sgil y broses gynllunio, mae gwersi gwerthfawr wedi cael eu dysgu am y fethodoleg a ddefnyddir i drefnu digwyddiadau o'r fath, ac mae'r gwersi hynny'n dylanwadu ar y broses o ddatblygu dull gweithredu ehangach y Bwrdd Iechyd.

4.2 DIGWYDDIADAU YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Mae tri digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned wedi cael eu trefnu. Cafodd y digwyddiad cyntaf ei gynnal ar 08 Tachwedd ym Merthyr Tudful, a'r ail un ar 28 Tachwedd 2019 yn Llantrisant. Cafodd y gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiad cyntaf eu defnyddio i siapia'r ail ddigwyddiad. Bydd hyn, yn ei dro, yn dylanwadu ar y trydydd digwyddiad a gynhelir ar 25 Chwefror 2020 ym Mhen-y-bont ar Ogwr.


Mae'r digwyddiadau hyn yn dangos yn amlwg ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i fod yn sefydliad mwy agored a thryloyw sy'n ymgysylltu mwy. Mae'n cael ei gydnabod yn gyffredinol bod y digwyddiadau ym mis Tachwedd wedi bod yn llwyddiant, ac roedd nifer sylweddol o fenywod, babanod ac aelodau o deuluoedd yn bresennol.

Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle gwerthfawr i gyfnewid gwybodaeth am y newidiadau y mae'r sefydliad yn eu gwneud mewn ymateb i Adroddiad y Colegau Brenhinol.

Roedd yr awyrgylch yn y ddau ddigwyddiad yn hamddenol. Cafodd y rheini a oedd yn bresennol eu hannog i sgwrsio, ac yn sgil hynny cafodd amrywiaeth o storïau a phrofiadau personol eu rhannu. Mae'r agwedd bersonol hon, yr awyrgylch croesawgar a'r amgylchedd cefnogol wedi arwain at adborth cadarnhaol, ac roedd y staff wedi elwa llawn cymaint o'r broses â'r menywod a'r teuluoedd a oedd yno. Roedd gan y digwyddiadau y fantais hefyd o fod yn datblygu sgiliau a phrofiadau ymysg y staff, ynghylch sut i gyfathrebu â phobl sydd wedi colli ffydd a hyder yn y Bwrdd Iechyd.

Un o'r elfennau allweddol a ddefnyddiwyd yn y digwyddiadau oedd techneg fapio weledol ddifyr, sy'n creu darlun thematig trawiadol o'r blaenoriaethau a'r negeseuon a glywyd gan y menywod a'r teuluoedd a oedd yn bresennol. Mae'r fethodoleg weledol hon yn bwerus ac yn rhyngweithiol, gan fod pobl yn gweld eu geiriau'n cael eu troi'n ddelweddau yn syth. Mae map gweledol y digwyddiad cyntaf ym Merthyr i'w weld isod, ac mae fersiwn fwy i'w gweld yn 'Atodiad B'.

Ffigur 1: Y Map Gweledol: Gwella Gwasanaethau Mamolaeth Gyda'n Gilydd – Merthyr Tudful



4.3 DEFNYDDIO'R GWERSI A DDYSGWYD O'R DIGWYDDIADAU YMGYSYLLTU

Cafwyd adborth cynnar gan y cyhoedd am y ddau ddigwyddiad ymgysylltu cyntaf, drwy'r mapiau gweledol a ffotograffau ar gyfryngau cymdeithasol, drwy grŵp sgwrsio 'Bump Talk', drwy fforwm 'My Maternity, My Way', ac ar dudalen we'r Bwrdd Iechyd.

Ar hyn o bryd, mae'r ddwy brif thema sydd wedi dod i'r amlwg yn ymwneud â gofal ar ôl y geni a chefnogaeth ar gyfer 'Mamau sydd eisiau bwydo ar y fron', ac mae cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu mewn ymateb i hynny. Ar ôl y trydydd digwyddiad ymgysylltu ym mis Chwefror 2020, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu llunio adroddiad cynhwysfawr i nodi'r prif themâu a'r hyn a ddysgwyr hyd yma. Bydd cynllun ymgysylltu ar gyfer gweddill 2020 yn cael ei gyhoeddi hefyd. Bydd hyn, yn y pen draw, yn dylanwadu ar y broses o ddatblygu 'Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth', sef y strategaeth hirdymor sy'n cael ei datblygu gan y sefydliad ar gyfer gwasanaethau mamolaeth.

(Y CAMAU NESAF 1: Mae'r Panel yn edrych ymlaen at weld canlyniadau'r dadansoddiad thematig o'r tri Digwyddiad Ymgysylltu, a'r cynlluniau gweithredu a'r strategaeth bellach ar gyfer ymgysylltu a fydd yn deillio ohono).

Yn amlwg, mae'n fuddiol i'r staff perthnasol – gan gynnwys bydwagedd – ymgymryd â'r dadansoddiad thematig eu hunain, er mwyn deall yn well beth yw blaenoriaethau menywod a theuluoedd o ran gofal mamolaeth. Fis Rhagfyr, bu Arweinydd Ymgysylltu'r Panel yn gweithio gyda thîm y Bwrdd Iechyd, gan arwain y broses o ymgysylltu â menywod a theuluoedd mewn sesiwn ddatblygu ynghylch y dadansoddiad thematig a sut i reoli'r broses.

4.4 CREU CYFLEOEDD YMGYSYLLTU AR BOB LEFEL

Gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyr yn sgil y digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, mae Grŵp y Prosiect wedi dechrau ystyried ffyrdd eraill o gasglu ac ymateb i storïau menywod. Mae hyn yn cynnwys:-

- datblygu'r cyfle i ehangu cynllun adborth ar y pryd y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion, er mwyn casglu profiadau menywod ar y cam cyn geni. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i nodi a datrys problemau neu bryderon yn y ffynhonnell, ac i leddfu pryderon a ddaw i'r amlwg am roi genedigaeth;
- ystyried ffyrdd o gasglu a dadansoddi adborth ar gyfryngau cymdeithasol mewn ffordd systematig. Mae llawer iawn o adborth a thrafodaethau am ofal mamolaeth i'w gweld ar gyfryngau cymdeithasol, ac mae 'Bump Talk' yn benodol yn ffynhonnell brysur a gwerthfawr sy'n rhoi gwybodaeth am flaenoriaethau a phryderon menywod;

- datblygu ‘My Maternity, My Way’ ymhellach (MSLC gynt). Mae’r arweinyddiaeth fedrus ac egniol gan y Cadeirydd Lleyg a benodwyd yn ddiweddar yn gwneud gwahaniaeth go iawn o ran cyrraedd defnyddwyr gwasanaeth. Mae gwell cyswllt â menywod a theuluoedd, a ffyrdd gwahanol o ymgysylltu, yn dangos y byddai’r grŵp wir yn gallu bod yn ganolbwynt ar gyfer y gwaith o gynnwys ac ymgysylltu â menywod a theuluoedd;
- trefnu adnodd safonol, a ddefnyddir yn eang, i gael adborth ystyrion ac wedi’i drefnu ar brofiadau o ofal mamolaeth. Mae hyn yn dilyn adolygiad o’r systemau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gasglu profiadau menywod, ac mae’r systemau hynny’n cael eu hystyried yn rhai aneffeithiol sydd ddim yn cael eu rhoi ar waith yn dda.

(Y CAMAU NESAF 2: Mae’r Panel yn edrych ymlaen at weld y cyfleoedd hyn i ddatblygu ymhellach allu’r Bwrdd lechyd i gasglu ac ymateb i brofiadau menywod yn ystod y chwarter nesaf ac, yn benodol, at weld yr adnodd newydd yn cael ei drefnu a’i lansio).

Mae’r Panel wedi sôn o’r blaen am bryderon yn dilyn y gwaith ymgysylltu ynghylch gwasanaethau mamolaeth, o ran y capasiti a’r gallu i ddatblygu’r strategaeth ymgysylltu â chleifion a’r cyhoedd, ynghyd â systemau ar draws y sefydliad. Cafwyd ar ddeall bod capasiti pellach ar gyfer ymgysylltu â chleifion a’r cyhoedd yn cael ei ystyried, er mwyn cryfhau’r broses o ddatblygu’r rhaglen.

(Y CAMAU NESAF 3: Yn ystod y chwarter nesaf, bydd y Panel yn gweithio gyda’r Bwrdd lechyd i sicrhau bod y gwersi a ddaw i’r amlwg o’r gwaith ymgysylltu ynghylch gwasanaethau mamolaeth yn cael eu hintegreiddio ar lefel gorfforaethol ac, yn benodol, i sicrhau ein bod yn deall yn iawn y manteision o ddefnyddio arbenigwyr yn hytrach nag ychwanegu cyfrifoldebau at rôl clinigwyr).

4.5 CWYNION, PRYDERON A CHEFNOGAETH I DEULUOEDD

Yn ystod digwyddiadau ymgysylltu a chyfathrebu, a drwy gyswllt uniongyrchol, mae menywod a theuluoedd wedi bod yn mynegi’n rheolaidd eu bod yn anffodlon â’r ymateb maen nhw wedi’i gael i gwynion, pryderon ac ymchwiliadau hirdymor. Nid yw’r trefniadau presennol yn ddigon cydlynol, ac mae’r diwylliant yn dal yn amddiffynnol ar brydiau, wrth i addewidion gael eu torri a therfynau amser gael eu methu yn aml.

Mae’r gwaith dadansoddi systemau a wnaed gan Uned Gyflawni’r GIG ac, yn fwy diweddar, yr adolygiad thematig o drefniadau llywodraethu ansawdd yn y Bwrdd lechyd – a gynhaliwyd ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru – wedi dangos bod y prosesau delio â chwynion a phryderon hefyd yn elfen allweddol y mae’n rhaid ei datblygu.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu cynllun i fynd i'r afael â'r materion hyn ar lefel drefniadaethol, ac mae capasiti ychwanegol wedi cael ei nodi – yn benodol, i ddelio â'r casgliad o hen gwynion sydd wedi cronni ynghylch y gwasanaethau mamolaeth. Mae'r cynllun yn mynd drwy broses gymeradwyo fewnol y Bwrdd lechyd ar hyn o bryd, ac felly nid yw ar gael i ni allu adrodd yn ôl arno yn ystod y cyfnod presennol. Fodd bynnag, mae'r Panel yn credu ei fod yn ymateb priodol i'r mater, a bydd adroddiadau chwarterol dilynol yn canolbwyntio ar y ffordd mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno.

Mae'r gwaith ar y cynllun wedi cychwyn yn barod, ac mae cynnydd yn cael ei wneud yn sicr, yn enwedig o ran ymateb o fewn cyfnod mwy priodol i atgyfeiriadau newydd. Mae gwaith ailstrwythuro yn cael ei wneud hefyd, er mwyn i staff allu ymateb i bryderon ar lefel y gyfarwyddiaeth mewn achosion priodol, yn hytrach nag aros am gymeradwyaeth gorfforaethol sy'n achosi oedi. Ond, mae heriau sylweddol yn bodoli o hyd o ran mynd i'r afael â'r casgliad o hen gwynion sydd wedi cronni.

Felly, bydd angen cyflawni'r cynllun yn gyflym ac yn effeithiol os yw'n mynd i adennill ffydd a hyder y menywod a'r teuluoedd.

(Y CAMAU NESAF 4: Ar ôl i'r Cynllun Gwella Prosesau Cwynion a Phryderon gael ei gymeradwyo, bydd y Panel yn disgwyl i'r Cynllun fod yn rhan sefydlog o'i broses fisol i fonitro gwelliannau, a bydd eisiau gweld metrigau perfformiad perthnasol yn cael eu cynnwys yng nghamau nesaf y gwaith o ddatblygu'r IPAAF).

4.6 CYNNWYS MENYWOD A THEULUEDD YM MHROSES AU CYFATHREBU'R PANEL

Ar ôl i'r adroddiad chwarterol cyntaf gael ei gyhoeddi, fe sefydlodd y Panel ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei hun ar gyfer Ymgysylltu er mwyn ystyried y ffyrdd gorau o gyfathrebu â menywod a theuluoedd am waith y Panel ac, yn benodol, am y ffordd mae'r Bwrdd lechyd yn newid mewn ymateb i adolygiad y Colegau Brenhinol.

Mae nifer o gynrychiolwyr teuluoedd wedi ymuno â'r grŵp, ac mae eu safbwyntiau wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddatblygu dulliau newydd sydd wedi'u teilwra'n well i anghenion unigolion.

4.7 YMGYSYLLTU Â'R STAFF

Mae'r Panel wedi ymgysylltu mwy â'r staff yn ystod mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr, fel rhan o'i ymweliadau sicrwydd misol ag unedau mamolaeth ar draws ardal y Bwrdd lechyd. Er ei bod hi'n anodd dod â llawer o staff at ei gilydd oherwydd ymrwymïadau gweithredol, mae'r Panel wedi cael trafodaethau ystyrlon â staff ar bob lefel – staff o gefndir meddygol, cefndir bydwreigiaeth a chefnidiroedd eraill, ac yn y tri ysbyty.

Mae'r staff y mae'r Panel wedi cwrdd â nhw, mewn grwpiau ffocws ac yn y gweithle, wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Mae'r staff yn amlwg yn gweithio'n galed o dan bwysau sylweddol, ac ar y cyfan, mae'n ymddangos eu bod yn teimlo'n angerddol am eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn siarad yn gadarnhaol am y newidiadau i'w hamgylchedd gwaith ers i adroddiad y Colegau Brenhinol gael ei gyhoeddi, yn enwedig o ran eu datblygiad personol ac ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant roeddent yn ei gael. Roeddent hefyd eisiau gwneud yn siŵr bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiadau'r Panel. Cydnabyddir hefyd bod ffordd bell i fynd o hyd, ac nad yw pawb yn barod eto i fod yn rhan o'r ateb.

Roedd rhai o'r sesiynau grŵp wedi adlewyrchu'r effaith negyddol mae adolygiad y Colegau Brenhinol wedi'i chael ar forâl y staff, ac roedden nhw eisiau cyfleu'r gwaith caled maen nhw'n ei wneud i sicrhau bod newidiadau a gwelliannau'n cael eu cyflwyno er budd menywod a theuluoedd.

Mae ymgysylltu â staff yn ffordd bwysig o driongli'r dystiolaeth sy'n cael ei darparu gan y Bwrdd Iechyd, a bydd y Panel yn dal i ganolbwyntio ar gwrdd â staff yn gyson yn ystod y chwarter nesaf.

5 ADOLYGIADAU CLINIGOL ANNIBYNNOL

Cafodd Strategaeth y Panel ar gyfer Adolygiadau Clinigol ei chyhoeddi ochr yn ochr ag Adroddiad Chwarterol yr Hydref ym mis Hydref 2019, ac mae'n bosibl ei gweld yn y fan yma os oes angen rhagor o wybodaeth gefndirol.

Mae Adran 5 Adroddiad Chwarterol yr Hydref yn disgrifio'r cynnydd a oedd wedi cael ei wneud i ddatblygu'r Strategaeth erbyn diwedd mis Medi 2019.

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y datblygiadau pellach a fu yn ystod mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2019. Mae hefyd yn sôn am ddigwyddiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer dechrau mis Ionawr, ac a fydd wedi cael eu cynnal erbyn i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi.

5.1 GRŴP Y PROSIECT ADOLYGIADAU CLINIGOL

Cafodd grŵp y Prosiect Adolygiadau Clinigol ei sefydlu yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth ar gyfer Adolygiadau Clinigol ym mis Hydref 2019. Mae aelodau grŵp y prosiect yn cynnwys Arweinwyr Obstetreg a Bydwreigiaeth y Panel, yn ogystal â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Uned Gyflawni GIG Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned. Mae hyn wedi arwain at sefydlu safle porth diogel i rannu ffeiliau, a chronfeydd data ategol. Bydd hyn yn galluogi'r timau adolygu i weithio o bell, a rhagwelir mai dyma fydd y fethodoleg fwyaf effeithlon.

5.2 RECRIWTIO ADOLYGWYR CLINIGOL

Mae manylebau swyddi ar gyfer adolygwyr clinigol ym maes obstetreg, bydwreigiaeth, anestheteg a chyn geni wedi cael eu llunio a'u rhannu drwy'r rhwydweithiau clinigol priodol ar gyfer cyflwyno datganiadau o ddiddordeb.

Cafodd pob cais ei adolygu gan Arweinwyr Obstetreg a Bydwreigiaeth y Panel, er mwyn gofalu bod gan yr holl adolygwyr a ddewisir y cefndir a'r profiad angenrheidiol i gynnal yr adolygiadau clinigol. Mae'r Panel wedi llwyddo i recriwtio pum obstetregydd, wyth bydwraig, tri anesthetydd a thri neonatolegydd, a phob un ohonyn nhw'n annibynnol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

5.3 RHAGLEN GYNEFINO I ADOLYGWYR CLINIGOL

Cafodd tair o raglenni cynefino eu cynnal ym mis Tachwedd a Rhagfyr ar gyfer Adolygwyr Clinigol. Roedd y rhaglenni'n cael eu harwain gan glinigwyr y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth, a'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru ac Uned Gyflawni'r GIG. Nod y rhaglen gynefino oedd sicrhau bod yr adolygwyr yn llwyr ymwybodol o gefndir yr adolygiad, ac yn deall eu rôl wrth gynnal y broses adolygu. Bydd gweddill y rhaglenni cynefino yn cael eu cynnal yn gynnar yn 2020.

5.4 GRWPIAU ADOLYGIADAU CLINIGOL

Mae pedwar grŵp ar wahân yn rhan o broses yr adolygiad edrych yn ôl:-

1. Yr achosion rhwng 01 Ionawr 2016 a 30 Medi 2018 a oedd wedi cael eu nodi cyn adolygiad y Colegau Brenhinol ('y 43' fel roedden nhw'n arfer cael eu galw);
2. Yr achosion rhwng 01 Ionawr 2016 a 30 Medi 2018 a gafodd eu nodi wedyn, gan ddefnyddio meini prawf a gytunwyd ac a oedd wedi cael eu pennu gan y Panel;
3. Yr achosion edrych yn ôl rhwng 2010 a 2016. Bydd y meini prawf ar gyfer y grŵp hwn yn cael eu pennu ar sail canlyniadau'r ddwy garfan uchod;
4. Y menywod a'r teuluoedd hynny sydd wedi hunanatgyfeirio, ac y bydd eu gofal yn cael ei adolygu ni waeth a ydynt yn bodloni'r meini prawf ai peidio.

Yr achosion yng ngrwpiau un a dau fydd yn cael eu hadolygu gyntaf. Mae hynny'n cynnwys tua 140³ o achosion, a'r 43 achos gwreiddiol a nodwyd yn adolygiad y Colegau Brenhinol.

At ddibenion neilltuo Timau Adolygiadau Clinigol, mae'r achosion wedi cael eu rhannu'n dri chategori fel hyn:-

Tabl 1: *Categoriâu Adolygiadau Clinigol*

CATEGORIÂU	DISGRIFIAD
1. Morbidrwydd a marwolaethau ymysg mamau	Y gofal a roddwyd i famau, gan gynnwys y rheini yr oedd angen eu hanfon i'r uned gofal dwys o bosibl.
2. Morbidrwydd a marwolaethau ymysg babanod newyddenedigol	Babanod a fu farw yn dilyn yr enedigaeth yn anffodus, neu a oedd angen gofal arbenigol.
3. Marw-enedigaethau	Babanod a oedd wedi marw cyn cael eu geni yn anffodus.

Roedd Timau Adolygiadau Clinigol wedi dechrau ar eu gwaith ym mis Rhagfyr 2019, drwy gynnal ymarfer peilot a oedd yn cynnwys nifer o achosion prawf. Pwrpas yr ymarfer peilot hwn oedd galluogi Timau Adolygiadau Clinigol i sicrhau ansawdd y broses adolygiadau clinigol, a gofalu ei bod yn gadarn ac yn effeithiol cyn iddi gael ei rhoi ar waith yn llawn ar gyfer yr holl achosion yn gynnwys yn y Flwyddyn Newydd.

³ Nodir bod nifer yr achosion sy'n cael eu hadolygu ychydig yn is na'r nifer a nodwyd yn wreiddiol (tua 150) yn Adroddiad Chwarterol yr Hydref. Y rheswm am hynny yw bod mwy a mwy o wybodaeth fwy cywir yn dod ar gael, ac mae nifer o achosion dyblyg wedi dod i'r amlwg yn sgil hynny. Mae'n bwysig nodi y gallai'r ffigur hwn newid wrth i waith yr adolygiad clinigol ddatblygu, ac wrth i wybodaeth bellach ddod ar gael.

Yr achosion hynny sy'n ymwneud â mamau a gafodd gymhlethdodau cyn, yn ystod neu ar ôl y beichiogrwydd – yn cynnwys cael eu hanfon i unedau gofal dwys – fydd yn cael eu hadolygu gyntaf.

Mae'r Panel wedi ysgrifennu at yr holl fenywod y mae eu gofal yn cael ei adolygu er mwyn eu gwahodd i gymryd rhan yn eu hadolygiadau unigol, os byddan nhw'n dymuno gwneud hynny.

Os byddan nhw'n dymuno, bydd yr holl fenywod a theuluoedd yn cael cyfle i ddweud eu stori ac i gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i Dîm yr Adolygiad Clinigol sy'n adolygu eu gofal. Bydd cefnogaeth ar gael gan Wasanaeth Eirioli'r Cyngor Iechyd Cymuned i'r menywod hynny y mae eu gofal yn cael ei adolygu. Bydd y menywod a'r teuluoedd yn cael cynnig cefnogaeth briodol arall os bydd angen hynny arnynt.

5.5 AMSERLENNI AR GYFER CWBLHAU'R ADOLYGIADAU

Gan fod hon yn broses newydd, nid yw'n bosibl rhagweld ar hyn o bryd pa mor hir fydd proses yr adolygiad. Mae'n bwysig bod y broses yn addas i'r diben ac yn gadarn, er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu i wella ansawdd y gwasanaeth mamolaeth, a'i wneud yn fwy diogel ac ymatebol.

5.6 DIGWYDDIADAU ERS MIS HYDREF 2018

Un o elfennau eraill y broses adolygiadau clinigol yw sicrhau ansawdd digwyddiadau difrifol sydd wedi digwydd ers 01 Hydref 2018.

Cynhaliwyd adolygiad o nifer bach o achosion ar 16 Medi, a oedd yn dangos tystiolaeth o gydweithio amlddisgyblaethol ac o ymgysylltu'n dda â theuluoedd. Fodd bynnag, roedd cwmplas yr asesiad rhagarweiniol wedi'i gyfyngu oherwydd nifer yr achosion a oedd angen sylw.

Ar 09 Rhagfyr 2019, cynhaliwyd adolygiad arall o'r digwyddiadau difrifol mwyaf diweddar. Mae 20 o ddigwyddiadau difrifol wedi cael eu cofnodi, ac mae'r Panel bellach wedi ystyried 11 o'r digwyddiadau hyn a oedd yn barod i gael eu hadolygu. Nododd y Panel fod materion a nodwyd yn y broses sicrhau ansawdd gynharach wedi cael eu trafod â'r gwasanaeth, a bod adroddiadau dilynol wedi cael eu newid.

Er bod nifer bach o argymhellion wedi cael eu gwneud i'r Bwrdd Iechyd ar elfennau lle gellir gwneud gwelliannau, at ei gilydd, roedd ansawdd y rhan fwyaf o'r adroddiadau mwyaf diweddar wedi gwneud argraff ar y Panel.

Fodd bynnag, mae'r argymhellion canlynol wedi cael eu gwneud i'r tîm rheoli risgiau clinigol:-

- mae angen i'r cynlluniau gweithredu fod yn rhai CAMPUS, oherwydd nid oedd rhai adroddiadau yn cynnwys amcanion mesuradwy;
- dylid cadw cofnodion/cofnodi camau gweithredu yn dilyn trafodaethau'r tîm amlddisgyblaethol a gynhelir fel rhan o'r broses adolygu, er mwyn rhoi tystiolaeth bod trafodaethau o'r fath wedi cael eu cynnal;

- mae amlinelliad cryno o lefelau staff, aciwtedd cleifion a chapasiti unedau yn fuddiol er mwyn cyfleu'r cyd-destun a deall unrhyw ffactorau sy'n cyfrannu at y sefyllfa.

(Y CAMAU NESAF 5: Bydd adolygiad pellach o'r digwyddiadau difrifol sydd ar ôl, ac sydd heb gael eu hadolygu eto, yn cael ei drefnu yn ystod y chwarter nesaf gyda'r bwriad – os bydd yn briodol – i ddilysu a chymeradwyo'r broses bresennol ar gyfer adolygu digwyddiadau difrifol fel un sy'n 'addas i'r diben'. Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod argymhellion yr adolygiad blaenorol wedi cael sylw).

5.7 HUNANATGYFEIRIADAU

Er y bydd angen adolygu'r holl achosion sydd wedi cael eu hunanatgyfeirio, mae'n amlwg na fydd angen cynnal adolygiad clinigol llawn ar bob un ohonynt, a bydd hynny'n dibynnu ar natur y pryder a godwyd. Boed yr achosion yn rhai addas ar gyfer adolygiad clinigol ai peidio, bydd y Panel yn dal i fonitro pob achos unigol er mwyn sicrhau – pan fo modd – ateb boddhaol sy'n rhoi sylw i anghenion y menywod a'u teuluoedd.

Gofynnwyd i'r Bwrdd lechyd gynnig ffordd ymlaen ar gyfer pob achos unigol erbyn 16 Rhagfyr 2019. Fodd bynnag, penderfynwyd nad oedd y broses a gyflwynwyd yn addas i gael ei chymeradwyo, ac mae angen gwneud gwaith datblygu pellach. Mae hynny'n cynnwys dweud yn gwbl glir pa ddigwyddiadau fydd yn cael eu categorio'n rhai hunanatgyfeirio, a sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei chroesgyfeirio ag elfennau eraill yn y broses adolygiadau clinigol. Felly, nid ydym yn gwybod eto beth yw union nifer yr hunanatgyfeiriadau.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i wneud y gwaith hwn fel blaenoriaeth, ac yn sicr cyn cyfarfod nesaf y Panel â menywod a theuluoedd ganol mis Ionawr.

Ar ôl i'r broses gael ei chymeradwyo, bydd proses brysbennu'n cael ei chynnal er mwyn dod o hyd i'r ateb mwyaf priodol ar gyfer pob atgyfeiriad. Ar y cam hwnnw, cysylltir â'r menywod a'r teuluoedd perthnasol er mwyn trafod a chytuno ar y ffordd ymlaen.

(Y CAMAU NESAF 6: Bydd y Panel yn gweithio gyda'r Bwrdd lechyd i ddatblygu proses hunanatgyfeirio y cytunir arni erbyn 16 Ionawr 2020, er mwyn sicrhau bod y menywod a'r teuluoedd perthnasol yn cael gwybodaeth am y broses adolygu a'r amserlenni tebygol ar gyfer cwblhau'r adolygiad).

6 Y FFRAMWAITH SICRWYDD A'R MATRICS AEDDFEDRWYDD

Yn adroddiad Chwarterol yr Hydref, eglurodd y Panel ei fwriad i ddefnyddio Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF), sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel sail i'r broses o adrodd yn ôl i'r Gweinidog yn y dyfodol. Bydd y fframwaith hefyd yn cael ei ddefnyddio, yn y dyfodol agos, fel sail i drefniadau mewnol y Bwrdd lechyd ar gyfer monitro gwelliannau a rheoli perfformiad, drwy'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth, i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd lechyd.

Mae'r IPAAF wedi cael ei amlinellu ar ffurf sgematig yn 'Atodiad C'.

Mae Adran 6 adroddiad Chwarterol yr Hydref yn cynnwys eglurhad manwl o sut cafodd yr IPAAF ei ddatblygu, beth yw ei ddiben a sut bydd yn cael ei ddefnyddio yn y pen draw i gynnig sicrwydd. Felly, nid oes bwriad i ailadrodd yr wybodaeth honno yn fanwl yn y fan yma. Ond, mae'n bosibl y byddai esboniad cryno yn ddefnyddiol.

Yn fyr, bydd y fframwaith yn defnyddio matrices aeddfedrwydd pum lefel i ddangos i ba raddau mae'r Bwrdd lechyd yn gwneud cynnydd yn erbyn ei gynlluniau gwella, ac i ba raddau mae hynny'n arwain at ganlyniadau gwell i fenywod a theuluoedd. Bydd y cynnydd yn erbyn y matrices aeddfedrwydd yn cael ei fesur a'i asesu yn ôl tair prif elfen (gofal diogel ac effeithiol, ansawdd profiadau menywod, rheolaeth dda ac arweiniad da) a bydd fframwaith dyfarnu yn cael ei ddefnyddio i weld a yw gwasanaethau'n gwella, ac os ydyn nhw, a yw'r gwelliant hwnnw'n gynaliadwy.

Bydd pob elfen yn cynnwys set o ddangosyddion perfformiad ansoddol a meintiol, a chyfres o gerrig milltir ac elfennau allweddol i'w cyflawni sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gwella Mamolaeth. Bydd yr IPAAF yn cynnig ffordd syml ond effeithiol o adrodd yn ôl ar gynnydd, gan osgoi gorddefnyddio ystadegau a systemau goleuadau traffig.

Yn adroddiad blaenorol y Panel, y gobaith oedd y byddai'r IPAAF – er ei fod yn nyddiau cynnar ei ddatblygiad ar y pryd – ar waith yn llawn erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019. Yn anffodus, nid yw hynny wedi digwydd.

Er ein bod wedi gweld rhywfaint o gynnydd i'r cyfeiriad cywir, nid yw'r cynnydd hwnnw wedi bod mor sylweddol nac wedi digwydd mor gyflym ag y byddai'r Panel wedi gobeithio. Felly, mae'n debygol y bydd hi'n ddiwedd mis Mawrth 2020 erbyn y bydd modd defnyddio'r IPAAF yn ystyrion fel sail i'r broses o ddangos dystiolaeth o'r cynnydd. Mae hynny'n golygu bod yr asesiad o'r cynnydd ar gyfer y chwarter hwn unwaith eto yn fwy naratif ei natur nag y byddai'r Panel wedi dymuno.

Mae gweddill yr adran hon yn egluro'n fyr pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud hyd yma i ddatblygu'r IPAAF, a beth mae angen ei ddatblygu yn ystod y cyfnod nesaf.


6.1 DEFNYDDIO'R IPAAF – Y CYNNYDD HYD YMA

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu'r *Matrics Aeddfedrwydd* ar gyfer Gwella Gwasanaethau Mamolaeth, a bydd y *Matrics* – ar y cyd â'r IPAAF – yn rhoi asesiad o'r cynnydd yn y tair elfen. Mae hwn yn gam cadarnhaol a oedd yn golygu llawer iawn o waith i'r Bwrdd Iechyd, ac mae'n adeiladu ar arferion da mewn elfennau eraill. Mae'r *Matrics Aeddfedrwydd* yn disgrifio pum lefel o gynnydd gan ddefnyddio cyfres o ddisgrifiyddion naratif, fel hyn:-

- **Sylfaenol** (Wedi derbyn yr egwyddorion, ac wedi ymrwymo i weithredu)
- **Cynnydd Cynnar** (Tystiolaeth o ddatblygiadau a chynnydd cynnar)
- **Canlyniadau** (Wedi cyflawni canlyniadau a cherrig milltir cychwynnol)
- **Datblygiad** (Sicrhau canlyniadau'n gyson)
- **Esiampl** (Eraill yn dysgu o'n llwyddiannau)

Mae enghraifft o'r *Matrics Aeddfedrwydd* i'w gweld isod, ac mae'n defnyddio'r disgrifiyddion ar gyfer yr elfen *Ansawdd Profiadau Menywod*.

Ffigur 2: Enghraifft o *Matrics Aeddfedrwydd*



Mae'r asesiadau cyntaf yn erbyn y Matrics Aeddfedrwydd wedi cael eu cynnal yn ddiweddar fel trefniant prawf, ac mae asesiad y Bwrdd Iechyd yn dangos bod y tair elfen ar y lefel 'Cynnydd Cynnar'. Y nod yw symud o ochr chwith y Matrics Aeddfedrwydd i'r ochr dde (h.y. o'r lefel Sylfaenol i fod yn Esiampl) ar gyfer y tair elfen wrth i'r rhaglen ddatblygu.

Yn ogystal â datblygu'r Matrics Aeddfedrwydd, ar y cyd â'r Panel ac Uned Gyflawni'r GIG, mae'r Bwrdd Iechyd wedi enwi set o fetrigau allweddol ym mhob un o'r tair elfen, ac wedi dechrau llunio siartiau a graffiau sy'n mynd yn ôl i fis Ebrill 2019. Mae angen mireinio'r rhain ymhellach, ond mae'r wybodaeth yn dechrau dylanwadu ar gamau gwella yn barod. Er enghraifft, mae gweithgorau amlddisgyblaethol wedi cael eu sefydlu'n barod er mwyn dod o hyd i ddulliau o leihau'r cyfraddau ar gyfer toriadau Cesaraid a chymell geni – elfennau lle mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n llai ffafriol na Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru.

Mewn rhai rhannau o'r IPAAF – yr elfen Ansawdd Profiadau Menywod yn arbennig – nid yw'r dangosyddion sydd ar waith ar hyn o bryd wedi cael eu datblygu ddigon, a bydd angen gwneud gwaith ychwanegol er mwyn creu metrigau newydd.

Yn ychwanegol at y datblygiadau hyn, mae nifer o flociau adeiladu eraill wedi cael eu gosod a fydd yn cefnogi'r broses o roi'r IPAAF ar waith. Yn benodol:-

- mae'r Rhaglen Gwella Mamolaeth wedi cael ei hailstrwythuro o amgylch y tair elfen erbyn hyn, gyda thri grŵp prosiect sy'n canolbwyntio ar Ddiogelwch ac Effeithiolrwydd, Ansawdd Profiadau Menywod, ac Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth;
- mae'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a'r Panel wedi cael ei symleiddio, ac mae cyfres o adroddiadau mwy cryno ynghylch y prif bwyntiau wedi cael eu cyflwyno sy'n canolbwyntio ar gyflawni, risg a sicrwydd;
- mae'r rhaglen o ymweliadau sicrwydd misol wedi'i hen sefydlu erbyn hyn. Mae hyn yn galluogi'r Panel i brofi a thriongli'r wybodaeth mae'r Bwrdd Iechyd yn ei darparu, drwy ryngweithio â staff a chleifion, a drwy archwilio ac asesu'r dystiolaeth sy'n cael ei darparu gan y Bwrdd Iechyd.

Er bod yr holl ddatblygiadau hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir, nid yw'r IPAAF yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r bwriad ar hyn o bryd, ac mae'n bwysig bod cynnydd yn digwydd yn gyflymach yn y chwarter nesaf.

6.2 DATBLYGU'R IPAAF – Y CAMAU NESAF

Wrth nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y tri mis nesaf, mae'r Panel ac Uwch-swyddog Cyfrifol y Rhaglen Gwella Mamolaeth wedi cytuno y bydd pwyslais ar y cyd ar orffen datblygu'r IPAAF. Maen nhw wedi cytuno ar yr uchelgeisiau canlynol erbyn adroddiad y Panel yn ystod gwanwyn 2020:-

- bydd y fframwaith yn cynnwys set o fetrigau perfformiad, a bydd y gwaith i lenwi'r bylchau wedi dechrau;
- bydd siartiau ac adnoddau perfformiad eraill ar gael i lywio adroddiadau perfformiad a phenderfyniadau;
- bydd camau gweithredu'r Cynllun Gwella Mamolaeth, a'i helfennau allweddol i'w cyflawni, yn cyd-fynd â phob elfen;
- bydd llinell sylfaen wedi cael ei datblygu er mwyn nodi targedau gwella ymestynnol, ond realistig, dros amser.

(Y CAMAU NESAF 7: Bydd y Panel yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu'r IPAAF ymhellach, ac i sicrhau bod y gwaith datblygu angenrheidiol yn cael ei gwblhau'n brydlon er mwyn gallu defnyddio'r fframwaith fel sail i'r broses o adrodd yn ôl ar y cynnydd yn ystod gwanwyn 2020).


7 YMATEB Y BWRDD IECHYD

Cafodd ymateb y Bwrdd Iechyd i adolygiad y Colegau Brenhinol ei egluro'n fanwl yn adroddiad blaenorol y Panel. Felly nid yw'n cael ei ailadrodd yn y fan yma, ac eithrio i grynhoi'r sefyllfa bresennol, sydd fel a ganlyn.

Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi cael ei benodi'n Uwch-swyddog Cyfrifol y Cynllun Gwella Mamolaeth. Mae'n cadeirio'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth sy'n adrodd i'r Bwrdd Iechyd drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae tri Grŵp Prosiect wedi cael eu sefydlu ar wahân o dan y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth er mwyn cyflawni'r Cynllun Gwella Mamolaeth, ac mae Tîm Gwella Mamolaeth wedi cael ei sefydlu – o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth – i gydlynu eu gwaith. Mae'r Bwrdd yn cymryd perchnogaeth dros y broses wella ac yn ymwneud â hi, ac mae llinellau clir i'w gweld o ran atebolrwydd ac adrodd yn ôl.

Mae strwythur y rhaglen wedi datblygu dros y tri mis diwethaf, yn bennaf er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd ag elfennau'r IPAAF. Mae pedwaredd elfen waith wedi cael ei chyflwyno hefyd er mwyn datblygu strategaeth hirdymor o'r enw 'Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth', a fydd yn cyd-fynd yn agos iawn â'r strategaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth sy'n cael ei datblygu ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Mae'r strwythur presennol yn cael ei grynhoi yn Ffigur 3 isod.

Ffigur 3: Strwythur y Rhaglen Gwella Mamolaeth



Mae'r Uwch-swyddog Cyfrifol wedi bod yn cydweithio â'r Panel ac mae perthynas waith adeiladol wedi datblygu, ond o fewn awyrgylch o graffu a herio.

Mae'r Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth yn gweithio'n fwy a mwy effeithiol gyda Rheolwr Busnes y Panel i reoli'r prosesau gwella a goruchwyllo mewn ffordd gydweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr yn rhan allweddol o lwyddiant y rhaglen, ac mae'r cynnydd yn amlwg wedi cyflymu ers iddi ddechrau ar y swydd ym mis Awst 2019.

Er bod rhywfaint o faterion gweinyddol angen sylw o hyd, ac mae rhywfaint o drafferthion wedi bod o ran cadernid a chapasiti (edrychwch ar Adran 7.2) yn gyffredinol, mae'r trefniadau yn gweithio'n dda ar y cyfan ac mae'r cyfathrebu rhwng y Bwrdd lechyd a'r Panel yn gwella'n raddol.

Yn ddiweddar, mae lefel yr wybodaeth naratif a gyflwynir i'r Panel wedi cael ei symleiddio, ac mae'r cylch busnes yn seiliedig yn awr ar gyfres o adroddiadau ar y prif bwyntiau sydd hefyd yn ategu proses y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth, ac felly'n lleihau biwrocratiaeth ddiangen ac yn sicrhau nad yw'r gwaith yn cael ei ddyblygu.

7.1 CREU'R SYLFEINI AR GYFER GWELLIANNAU CYNALIADWY

Yn Adran 10 Adroddiad Chwarterol yr Hydref, mae'r Panel yn enwi 12 elfen lle'r oedd yn disgwyl gweld y Bwrdd lechyd yn gwneud cynnydd sylweddol yn ystod mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2019. Mae'r 'Camau Nesaf' hyn wedi'u nodi yn y tabl isod, gydag asesiad byr o sefyllfa bresennol pob un o'r Camau.

Tabl 2: Crynodeb o'r Cynnydd a wnaed erbyn 31 Rhagfyr 2019 i gwblhau'r 'Camau Nesaf'

Y Camau Nesaf Disgwyliedig	Crynodeb o'r Cynnydd ar 31 Rhagfyr 2019
1. Bydd y swyddi sydd ar ôl o ran arweinyddiaeth (yn arbennig, swydd barhaol y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth) wedi'u llenwi.	Bu OEDI O RAN CYNNYDD ; mae Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth wedi cael ei benodi erbyn hyn, a bydd yn cychwyn ar y swydd ddechrau mis Ionawr 2020. Bu oedi wrth lenwi'r swydd, ac roedd y penderfyniad (doeth) a wnaed yn sgil hynny i ailhysbysebu ar raddfa uwch, a'r gofyniad i'r ymgeisydd llwyddiannus roi cyfnod rhybudd, wedi ychwanegu at yr oedi hwnnw. Yn y cyfamser, mae'r Pennaeth Bydwreigiaeth dros dro wedi cynnig arweiniad cadarn, gweladwy ac effeithiol wrth symud y broses wella ymlaen. Mae penodi'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth parhaol yn garreg filltir bwysig, oherwydd bydd y triawd arwain – y cyfarwyddwyr meddygol, clinigol a rheoli – wedi cael eu penodi cyn bo hir, ar sail barhaol. Yn sgil hynny, dylai fod yn bosibl cyflymu'r gwaith a sicrhau mwy o gydlyniant wrth gyflawni'r Cynllun Gwella Mamolaeth.

2. Bydd yr adnoddau rhaglen sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r Cynllun Gwella Mamolaeth yn eu lle.	Mae RHYWFAINT O GYNNYDD wedi cael ei wneud, ond mae rhai swyddi yn dal heb eu llenwi oherwydd amseroedd arwain (lead times) hir yn y broses recriwtio. Fodd bynnag, rhagwelir yn awr y bydd holl aelodau tîm y rhaglen wedi'u penodi erbyn diwedd mis Ionawr 2020. Mae diffyg capasiti wedi arafu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth mewn rhai elfennau, ac mae problemau cadernid a oedd yn gysylltiedig ag absenoldebau salwch nad oedd modd eu hosgoi wedi ychwanegu at hynny. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn Adran 7.2 isod, mae'r Uwch-swyddog Cyfrifol wedi cytuno ar gapasiti ychwanegol a strwythur tîm diwygiedig. Dylai hynny gyflymu'r gwaith a gwneud y broses weinyddol yn fwy effeithlon wrth symud ymlaen.
3. Bydd mw y gysylltiad meddygol â'r broses wella.	Mae CYNNYDD CYNNAR DA wedi cael ei wneud yn dilyn penodi'r Cyfarwyddwr Meddygol newydd a'r Cyfarwyddwr Clinigol newydd ar gyfer Obstetreg a Gynaecoleg, a recriwtio nifer o feddygon ymgynghorol newydd. Mae llawer mwy o gysylltiad meddygol â'r broses wella erbyn hyn, ac arwyddion clir bod yr arweiniad mwy gweladwy ac ymgysylltiol a ddarperir – yn enwedig gan y Cyfarwyddwr Clinigol – yn dechrau cael effaith. Mae uwch staff meddygol bellach yn hawlio mwy o berchnogaeth dros yr agenda diogelwch ac ansawdd, ac mae trefn lywodraethu amlddisgyblaethol sydd wedi cael ei diffinio'n dda ar waith erbyn hyn. Mae llawer iawn o waith eto i'w wneud, ond mae'r strwythur arwain yn ei le erbyn hyn, a dylai hynny gyflymu'r broses gyflawni. Mae'n galonogol gweld uwch staff meddygol yn arwain gweithgoreu er mwyn dod o hyd i ffyrdd o wella meysydd perfformiad allweddol, fel y cyfraddau ar gyfer toriadau Cesaraidd a chymell geni. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Clinigol yn cydweithio'n uniongyrchol â'r Panel erbyn hyn.
4. Bydd gan y Cynllun Gwella Mamolaeth flaenoriaethau cliriach ar gyfer camau gweithredu, cerrig milltir ac elfennau allweddol i'w cyflawni.	CYNNYDD CYFYNGEDIG sydd wedi cael ei wneud o ran ailwampio'r Cynllun Gwella Mamolaeth, a hynny'n bennaf oherwydd problemau capasiti a chadernid yn y Tîm Gwella Mamolaeth, a'r angen i flaenoriaethu darnau eraill o waith – er enghraifft, cyflwyno'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol. Mae Cadeirydd y Panel a'r Uwch-swyddog Cyfrifol wedi cytuno bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y chwarter nesaf. Trafodir hyn ymhellach yn Adran 8.3 yr adroddiad.

5. Bydd mwy o gynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r tri argymhelliad 'gwneud yn ddiogel' sy'n dal yn waith ar y gweill ac, yn benodol, bydd adolygiad Birthrate Plus® o lefelau staffio wedi cael ei gwblhau a bydd cynllun gweithredu wedi'i lunio, os oes angen.	Mae CYNNYDD PELLACH wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r tri argymhelliad 'gwneud yn ddiogel' a oedd yn dal yn 'waith ar y gweill' adeg yr adroddiad blaenorol. Mae'r adroddiad Birthrate Plus® wedi cael ei gyflwyno, ac mae'n dangos bod nifer y staff a ariennir yn cyd-fynd yn fras â'r lefelau a argymhellir. Mae hyn yn arwyddocaol iawn. Fodd bynnag, mae'r Panel yn dal i aros am gynllun gweithredu i egluro sut bydd y lefelau staffio gwirioneddol yn cyd-fynd â nifer y staff a ariennir. Trafodir hyn ymhellach yn Adran 8.2 yr adroddiad.
6. Bydd sylfaen dystiolaeth ar gael i hwyluso cynnydd mewn perthynas â gweddill argymhellion y Colegau Brenhinol sydd i gael eu hasesu, a darperir sicrwydd mwy pendant.	Mae CYNNYDD DA wedi cael ei wneud ym mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr i gyflawni rhagor o argymhellion y Colegau Brenhinol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno dystiolaeth i'r Panel fod 27 o'r 70 o argymhellion a wnaed gan y Colegau Brenhinol wedi cael eu cyflawni a'u gwreiddio mewn arferion gweithredol. Mae'r Panel wedi asesu'r dystiolaeth, ac wedi cytuno i gymeradwyo 25 o'r argymhellion fel rhai sydd wedi cael eu cyflawni. Mae'r 45 o gamau gweithredu sydd ar ôl, yn ogystal â 9 cam arall a nodwyd mewn adolygiadau cysylltiedig, yn dal yn waith ar y gweill sydd ar wahanol gamau yn eu datblygiad. Mae Adroddiad 8 yr adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad mwy manwl o'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gwella Mamolaeth.
7. Bydd y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF) wedi'i ddatblygu ymhellach – bydd y tri pharth wedi'u llenwi â metrigau allweddol ac elfennau allweddol i'w cyflawni. Bydd llinell sylfaen wedi'i sefydlu a fydd yn gweithredu fel sail ar gyfer asesu'r cynnydd wrth symud ymlaen.	Mae RHYWFAINT O GYNNYDD wedi cael ei wneud i ddatblygu'r IPAAF ymhellach, ond mae llai na'r disgwyl wedi cael ei gyflawni. Mae metrigau perfformiad allweddol wedi cael eu nodi, ac mae fersiwn gyntaf y dangosfwrdd perfformiad wedi cael ei chynhyrchu. Ond, oherwydd problemau capasiti a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, nid yw'r gwaith angenrheidiol i nodi targedau tymor hir ar gyfer amserlenni a gwella perfformiad wedi cael ei gwblhau. Mae Cadeirydd y Panel a'r Uwch-swyddog Cyfrifol wedi cytuno bod datblygu'r IPAAF ymhellach yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y chwarter nesaf. Mae Adran 6 yr adroddiad yn cynnwys asesiad mwy manwl o'r problemau wrth ddatblygu'r IPAAF.

8. Bydd y Bwrdd Iechyd yn dechrau cyflawni elfennau o'r cynllun datblygu corfforaethol. Yn benodol, bydd gwaith wedi dechrau mewn meysydd sy'n hollbwysig o ran gwella'r gwasanaeth mamolaeth, gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth ac ailddiffinio'r diwylliant a gwerthoedd.	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud CYNNYDD CYNNAR o ran cyflwyno ei raglen datblygu corfforaethol ehangach, yn enwedig yn y meysydd hynny a fydd yn effeithio ar y gwaith o wella'r gwasanaethau mamolaeth. Mae'n galonogol gweld lefel o gysylltiad rhwng y ddwy raglen, ac mae'n amlwg bod gwersi a ddysgwyd o'r gwaith o wella gwasanaethau mamolaeth yn dylanwadu ar ddatblygiadau corfforaethol. Mae Adran 7.3 yr adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb mwy manwl o'r cynnydd a wnaed yn yr elfen hon.
9. Bydd cynnydd wedi'i wneud o ran rheoli cwynion a phryderon, a rheoli adborth cleifion.	Mae CYNNYDD CYNNAR wedi cael ei wneud ar lefelau corfforaethol ac adrannol i fynd i'r afael â rhai o'r gwendidau sylfaenol a ganfuwyd yn y prosesau rheoli cwynion a phryderon. Mae rhywfaint o gapasiti ychwanegol wedi cael ei roi ar waith, ac mae cynnydd wedi'i wneud i gadw at y terfynau amser ar gyfer atgyfeiriadau newydd. Mae cynllun gweithredu realistig, ac y mae modd ei gyflawni, wedi cael ei ddatblygu ar gyfer gwelliannau tymor hir, ac mae'r cynllun yn mynd drwy broses gymeradwyo'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd. Mae Adran 4 yr adroddiad yn cynnwys asesiad mwy manwl o'r cynnydd a wnaed yn yr elfen hon.
10. Bydd dull ymgysylltu dros dro'r Bwrdd Iechyd ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth wedi symud o'r cam cynllunio i'r cam gweithredu, a bydd y cyntaf o'r digwyddiadau cymunedol a gynhyrchir ar y cyd gan staff a chleifion wedi cael ei gynnal a'i werthuso.	Mae CYNNYDD DA wedi cael ei wneud. Mae dau o'r tri Digwyddiad Ymgysylltu â'r gymuned wedi cael eu cynnal erbyn hyn, ac mae gwybodaeth a gwersi gwerthfawr yn dod i'r amlwg yn sgîl hynny. Disgwylir y bydd y trydydd digwyddiad yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2020. Ar ôl i'r tri digwyddiad gael eu cynnal, byddan nhw'n cael eu gwerthuso a bydd cynllun gweithredu yn cael ei lunio i ddweud sut bydd yr wybodaeth a gasglwyd yn cael ei defnyddio (a) i wella profiadau menywod a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth, a (b) i ddod o hyd i ffyrdd y gall y sefydliad yn ehangach ddefnyddio adborth cleifion a'r gymuned yn well er mwyn gwella ei wasanaethau. Mae Adran 4.5 yr adroddiad yn cynnwys asesiad mwy manwl o'r cynnydd a wnaed yn yr elfen hon.

11. Bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau ar y gwaith o gaffael timau adolygiadau clinigol, drwy'r Colegau Brenhinol, er mwyn gallu dechrau ar gam cyntaf (golwg yn ôl 2016-2018) y Strategaeth Adolygiadau Clinigol.	Mae CYNNYDD DA wedi cael ei wneud yn yr elfen hon, ond cafwyd OEDI hefyd. Mae'r strategaeth adolygiadau clinigol yn ei lle erbyn hyn, mae timau adolygiadau clinigol wedi cael eu recriwtio, wedi dilyn y broses gynefino ac wedi cael eu hyfforddi, ac roedd prosesau a systemau ategol wedi cael eu datblygu yn barod i ddechrau ar y gwaith ym mis Rhagfyr. Ond mae'r cam gweithredu wedi cael ei ohirio tan ddechrau mis Ionawr 2020, er mwyn rhoi mwy o amser i'r Bwrdd lechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer cefnogi'r menywod a'r teuluoedd y bydd eu gofal yn cael ei adolygu. Mae Adran 5 yr adroddiad yn cynnwys rhagor o fanylion am y cynnydd a wnaed yn yr elfen hon.
12. Bydd mwy o waith wedi'i wneud yng nghyswllt sicrhau ansawdd digwyddiadau difrifol sydd wedi digwydd ers mis Hydref 2018, gyda golwg ar werthuso gallu a chapasiti'r Bwrdd lechyd i weithio'n annibynnol yn hyn o beth wrth symud ymlaen.	Mae CYNNYDD PELLACH wedi cael ei wneud yn yr elfen hon. Erbyn hyn, mae'r Panel Adolygiadau Clinigol wedi asesu 11 o'r 20 digwyddiad difrifol sydd wedi cael eu cofnodi ers i'r Colegau Brenhinol gynnal eu hadolygiad. Mae'r Panel wedi gweld cynnydd cyson o ran ansawdd yr ymchwiliadau, ac yn gallu gweld tystiolaeth bod gwersi'n cael eu dysgu yn sgil hynny. Mae gwaith i'w wneud o hyd. Mae rhywfaint o argymhellion wedi cael eu gwneud, ac mae'r Bwrdd lechyd yn mynd ati i roi sylw i'r rheini. Bydd adolygiad pellach o'r digwyddiadau difrifol sydd ar ôl yn cael ei gynnal yn ystod y chwarter nesaf. Mae Adran 5.6 yr adroddiad yn cynnwys asesiad mwy manwl o'r cynnydd a wnaed yn yr elfen hon.

7.2 Y Tîm GWELLA MAMOLAETH – CAPASITI A CHADERNID

Ar sail yr asesiad yn Adran 7.1, at ei gilydd, mae cynnydd da wedi cael ei wneud yn ystod y tri mis diwethaf, yn enwedig o ran sicrhau mwy o gysylltiad meddygol, cyflawni cyfran arall o argymhellion y Colegau Brenhinol, a bwrw ymlaen â'r gwaith o ymgysylltu â menywod a theuluoedd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn rhai elfennau wedi bod yn arafach nag yr oedd y Panel wedi'i ddisgwyl – yn benodol, y gwaith parhaus o ddatblygu'r IPAAF, ac ailfodelu'r Cynllun Gwella Mamolaeth – ac mae'r cynnydd wedi bod yn llai na'r hyn a gytunwyd â'r Bwrdd lechyd.

Ddechrau mis Rhagfyr, daeth yn fwyfwy amlwg i'r Panel nad oedd gan y Tîm Gwella Mamolaeth y capasiti na'r cadernid angenrheidiol i gyflawni'r Cynllun Gwella Mamolaeth **ac i** gefnogi'r rhaglen adolygiadau clinigol, **ac i** reoli'r broses o gyfathrebu ac ymgysylltu â menywod a theuluoedd. Daeth y diffyg capasiti hwn i'r amlwg mewn ffyrdd eraill, er enghraifft:-

- bu'n rhaid gohirio'r broses o gyflwyno'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol am fis oherwydd nad oedd y Panel yn ffyddiog bod y Bwrdd lechyd wedi rhoi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r broses ac, yn benodol, i sicrhau bod modd bodloni anghenion y menywod a'r teuluoedd;

- mae problemau'n parhau o ran sicrhau data o'r ansawdd priodol i ategu'r broses adolygiadau clinigol, a dydy'r Panel yn dal ddim yn gwbl ffyddiog bod y gronfa ddata mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i datblygu i hwyluso'r cyswllt parhaus â'r menywod a'r teuluoedd perthnasol mor gadarn ag y dylai fod;
- mae wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i gwblhau sawl darn o waith, yn enwedig y broses hunanatgyfeirio sy'n dal i gael ei datblygu'n derfynol.

Yn yr un modd, er bod y dadansoddiad terfynol yn dangos bod cynnydd da wedi cael ei wneud i gyflawni cyfran arall o argymhellion y Colegau Brenhinol (edrychwch ar Adran 8 i gael asesiad mwy manwl), roedd y dystiolaeth a oedd yn angenrheidiol i gymeradwyo'r argymhellion fel rhai wedi'u cyflawni yn hwyr iawn yn cael ei chyflwyno. Roedd hynny wedi rhoi pwysau ar y Panel a'r Bwrdd Iechyd i ddehongli'r dystiolaeth yn ddigon cyflym er mwyn gallu ei chynnwys yn yr adroddiad presennol.

Mae nifer o ffactorau wedi arafu'r cynnydd – yn bennaf, absenoldebau annisgwyl ac nad oedd modd eu hosgoi mewn rolau hollbwysig yn y Tîm Gwella Mamolaeth, ac oedi wrth recriwtio staff. Mae'r amgylchiadau wedi newid hefyd – er enghraifft, mae cwrmpas a maint y rhaglen adolygiadau clinigol wedi cynyddu, ac mae hynny wedi arwain at oblygiadau ychwanegol o ran adnoddau ac wedi cynyddu'r llwyth gwaith. Mae'r gofynion i wneud cofnodion clinigol yn ddienw yn enghraifft o hynny.

Mae'r materion hyn wedi cael eu trafod â'r Uwch-swyddog Cyfrifol a'r Prif Swyddog Gweithredol, a chafwyd ymateb cadarnhaol ac yn ddi-oed. Llwyddwyd i ddod o hyd i rywfaint o gapasiti ychwanegol, a bydd y Tîm Gwella Mamolaeth yn cael ei ailstrwythuro yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Bydd hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd wrth ymateb i ofynion sy'n newid, ac wrth i'r llwyth gwaith gynyddu a lleihau. Hefyd, disgwylir y bydd yr holl swyddi eraill wedi cael eu llenwi'n barhaol erbyn canol mis Ionawr.

Mae hyn yn rhoi mwy o ffydd i'r Panel y bydd y broses yn symud ymlaen yn gyflymach a gyda gwell disgyblaeth weinyddol.

(Y CAMAU NESAF 8: Erbyn diwedd Ionawr 2020, bydd yr holl adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r Rhaglen Gwella Mamolaeth yn eu lle, a bydd y Tîm Gwella Mamolaeth wedi cael ei ailstrwythuro a'i gynyddu er mwyn sicrhau mwy o gapasiti a chadernid).

7.3 CYNLLUN I DDATBLYGU'R BWRDD IECHYD YN EHANGACH

Yn gynnar yn y broses wella, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cydnabod nad oedd yr hyn a oedd wrth wraidd y methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol wedi'i gyfyngu i'r gwasanaethau mamolaeth.

O ganlyniad i hynny, fe luniodd y Bwrdd Iechyd raglen ehangach i ddatblygu'r sefydliad, ac mae wedi dechrau ei rhoi ar waith. Bydd hyn, ymysg materion eraill, yn gwella'r arweinyddiaeth a'r llywodraethu ar bob lefel, ac yn ailddiffinio diwylliant a gwerthoedd y sefydliad. Mae'r rhaglen waith yma'n cael ei llywio gan y gwaith y mae'r Panel yn ei oruchwylio i wella gwasanaethau mamolaeth, ac mae hefyd yn ategu'r gwaith hwnnw.

Mae'r Panel wedi gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr dros dro a'i thîm i sicrhau bod y rhaglenni gwaith yn cyd-fynd â'i gilydd.

Fel rhan o'r cynllun datblygu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau adolygu ei holl brosesau a fframweithiau llywodraethu corfforaethol a llywodraethu ansawdd ar draws y system. Elfen arall o'r cynllun yw cyflwyno model gweithredu a gytunwyd o'r newydd ar gyfer y sefydliad cyfan, ac mae pobl ac ansawdd yn gwbl ganolog i ddull gweithredu'r model. Mae'r broses o roi hyn ar waith wedi dechrau.

Gan ddysgu o'r gwaith ar wasanaethau mamolaeth, mae'r cynllun datblygu ar gyfer y sefydliad cyfan yn cael ei ategu gan fframwaith perfformiad sy'n seiliedig ar Ffatrics Aeddfedrwydd. Mae'r Matrics yn cael ei ategu gan fesurau a thystiolaeth glir i gadw golwg ar y cynnydd, ac mae'r Matrics yng nghamau cynnar ei ddatblygiad.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cychwyn rhaglen gwerthoedd ac ymddygiad ar draws y sefydliad, o dan y faner 'Gadewch inni Siarad'. Mae ymgynghorwyr allanol yn cynorthwyo gyda'r rhaglen, ac mae hi wedi cael derbyniad da ar y cyfan ymysg y staff, gyda lefelau da o ymgysylltu ac adborth cadarnhaol gan y rheini sydd wedi cymryd rhan.

O ran gwasanaethau mamolaeth yn benodol, mae dwy raglen ddatblygu wedi cael eu rhoi ar waith erbyn hyn. Rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer Meddygon Ymgynghorol ac Uwch Dîm Arwain yr adran Bydwreigiaeth yw'r rhaglen gyntaf, a lansiwyd ar 14 Tachwedd 2019. Rhaglen diwylliant a gwerthoedd yw'r ail un, ac mae'n rhaglen i holl staff y gwasanaethau mamolaeth – tua 300 i gyd. Cafodd y rhaglen hon hefyd ei lansio yng nghanol mis Tachwedd. Bydd yn rhoi pwyslais ar ddatblygu meddylfryd sy'n canolbwyntio ar dwf, tosturi, cydweithio a deallusrwydd emosiynol.

Mae'r ddwy raglen hyn yn ddatblygiadau pwysig, a bydd eu llwyddiant yn allweddol wrth fynd i'r afael â rhai o'r problemau sylfaenol o ran diwylliant a welir mewn llawer o argymhellion y Colegau Brenhinol. Felly, bydd y Panel yn monitro'r cynnydd yn frwd yn ystod y chwarter nesaf.

7.4 YR ADOLYGIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU ANSAWDD A GYNHALIWDYD AR Y CYD GAN AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU A SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Gan fod nifer o'r materion yn rhai trawsbynciol, yn ystod y chwarter nesaf bydd y Panel yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y cynllun gweithredu corfforaethol sy'n cael ei ddatblygu mewn ymateb i'r adolygiad thematig o drefniadau llywodraethu ansawdd – a gynhaliwyd ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – yn gyson â'r Cynllun Gwella Mamolaeth, gan fod nifer o themâu sy'n gorgyffwrdd wedi'u nodi yng ngwaith y Panel ac yn yr adroddiad ehangach hwn.

(Y CAMAU NESAF 9: Bydd y Panel yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau – pan fydd yn briodol – bod y cynllun gweithredu sy'n cael ei ddatblygu mewn ymateb i'r adolygiad thematig o drefniadau llywodraethu ansawdd, a gynhaliwyd ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn gyson â'r Cynllun Gwella Mamolaeth).

8 ASESIAD O'R CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Fel sy'n cael ei amlinellu yn Adran 6 yr adroddiad hwn, mae'r Panel yn rhagweld y bydd y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF) – erbyn gwanwyn 2020 – yn cynnwys metrigau wedi'u blaenoriaethu, cerrig milltir pwysig ac elfennau allweddol i'w cyflawni mewn perthynas â'r Cynllun Gwella Mamolaeth.

Bydd hyn yn galluogi'r Panel a'r Bwrdd lechyd i ddarparu asesiad cynnydd sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio gwell cyfuniad o fesurau ansoddol a meintiol ynghyd â thystiolaeth bod argymhellion y Colegau Brenhinol ac argymhellion cysylltiedig eraill yn cael eu cyflawni.

Bydd hefyd yn darparu'r sylfaen ar gyfer asesiad sylfaenol cychwynnol yn erbyn Matrics Aeddfedrwydd y Bwrdd lechyd, ac yn golygu bod modd datblygu trywydd a thargedau perfformiad sy'n gallu cael eu monitro a'u defnyddio i werthuso cynnydd dros amser. Mae hyn yn bwysig dros ben wrth ystyried y bydd yn cymryd llawer iawn o amser i wneud gwelliannau sylweddol mewn rhai elfennau allweddol, gan gynnwys gostwng y cyfraddau ar gyfer toriadau Cesaraid a chymell geni.

Yn y cyfamser, tra bo'r IPAAF yn dal i gael ei ddatblygu, mae asesiad y Panel o'r cynnydd a wnaed yn ystod y chwarter sydd dan arolwg yn gorfod bod yn seiliedig ar y canlynol:-

- tystiolaeth o gynnydd pellach yn erbyn yr 11 o gamau gweithredu 'gwneud yn ddiogel' a nodwyd gan y Colegau Brenhinol ym mis Ionawr 2019;
- tystiolaeth bod y 79 argymhelliad yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth yn cael eu cyflawni;
- gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau eraill, gan gynnwys adroddiadau gan gyrff allanol ac yn dilyn ymweliadau sicrwydd misol y Panel a gynhelir yn rheolaidd erbyn hyn.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn y tair elfen hyn yn cael ei chrynhof yn yr adrannau canlynol.

8.1 CYNNYDD PELLACH I GWBLHAU'R CAMAU GWEITHREDU 'GWNEUD YN DDIOGEL' A NODWYD GAN GOLEG BRENHINOL YR OBSTETRYDDION A'R GYNAECOLEGWYR

Pan luniodd y Panel ei adroddiad cynnydd cyntaf ym mis Medi 2019, roedd yn canolbwyntio ar asesu'r cynnydd a wnaed i gwblhau'r un ar ddeg cam gweithredu 'gwneud yn ddiogel' a nodwyd gan y Colegau Brenhinol fel camau a oedd angen sylw ar unwaith oherwydd goblygiadau posibl i ddiogelwch.

Ar ôl asesu ystod eang o dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd, roedd y Panel yn cytuno ag asesiad y Bwrdd Iechyd bod 8 o'r un ar ddeg cam gweithredu wedi cael sylw ac wedi'u gwreiddio mewn arferion gweithredol erbyn hyn. Er bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud ar y tri cham gweithredu arall, roedd y camau hynny'n dal yn waith ar y gweill ar y pryd.

Mae'r tabl isod yn cynnwys y tri argymhelliad 'gwneud yn ddiogel' a oedd yn dal yn waith ar y gweill, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau pellach a fu ers mis Medi 2019.

Mae'n bwysig pwysleisio bod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi mesurau ar waith i leihau unrhyw ganlyniadau niweidiol posibl ac, ar hyn o bryd, nid yw'r cyhoedd mewn perygl mwyach yn sgil y camau a gafodd eu cymryd yn syth.

Tabl 3: Cynnydd i gwblhau'r camau gweithredu 'Gwneud yn Ddiogel'

Camau gweithredu 'Gwneud yn Ddiogel'	Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd pellach	Statws ar hyn o bryd
6. Diffyg ymwybyddiaeth o ganllawiau, protocolau, sbardunau ac uwchgyfeirio a mynediad atynt.	Mae protocolau ac ati ar waith ar gyfer Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ac mae modd cael mynediad atynt. Ond, mae angen gwneud gwaith pellach ar ôl yr uno er mwyn cydfynd ag Ysbyty Tywysoges Cymru. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2020. Yn gweithio'n barhaus i sicrhau bod y tri ysbyty yn cydymffurfio.	Mae'n dal yn waith ar y gweill nes bydd gwaith Ysbyty Tywysoges Cymru wedi cael ei gwblhau, ac yna bydd angen ailasesu'r dystiolaeth o gydymffurfio yn y tri safle.

10. Nid yw lefelau staffio bydwreigiaeth yn cydymffurfio â chanfyddiadau adolygiad Birthrate plus® yn 2017. Mae angen i'r Bwrdd lechyd fonitro hyn mewn amser real ar lefel uwch i asesu a oes angen defnyddio'r protocolau uwchgyfeirio sydd wedi cael eu sefydlu i sicrhau diogelwch cleifion.	Mae'r lefelau interim sydd ar waith yn seiliedig ar farn broffesiynol, wrth aros am adroddiad Birthrate plus®. Mae cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro'n ddyddiol gan y Bwrdd lechyd, a gan Lywodraeth Cymru drwy broses fonitro wythnosol. Cafodd Adolygiad Birthrate plus® ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2019. Mae'r Adolygiad yn dangos bod nifer presennol y staff a ariennir yn cyd-fynd yn fras ag argymhellion Birthrate plus®, ac nad oes angen unrhyw adnoddau ychwanegol. Mae camau yn eu lle i gynyddu'r nifer gwirioneddol yn unol â nifer y staff a ariennir. Mae chwe swydd wag yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ar hyn o bryd. Mae pedair o'r swyddi wedi cael eu llenwi, ac mae angen recriwtio ar gyfer y ddwy arall.	Mae'n dal yn waith ar y gweill. Mae'r Panel yn aros i gael gweld y cynllun gweithredu cyn ailasesu a ellir cymeradwyo'r argymhelliad.
11. Mae diwylliant y gwasanaeth yn parhau i gael ei weld fel diwylliant cosbedigol. Mae staff angen cymorth a chefnogaeth gan uwch reolwyr ar yr adeg anodd hon.	Mae llawer o weithgareddau ar y gweill i ddatblygu arweinwyr a staff, ond mae'n cymryd amser i newid diwylliant. Mae arwyddion cynnar bod y cydweithio amlddisgyblaethol yn gwella mewn cyfarfodydd, a bod gwaith yn cael ei wneud i wella pethau, ond mae'n dal yn rhy gynnar i gymeradwyo'r argymhelliad hwn fel un sydd wedi cael ei gyflawni.	Mae'n dal yn waith ar y gweill.


Yn ystod mis Rhagfyr 2019 bu'r Panel yn adolygu'r dystiolaeth o'r cynnydd unwaith eto, a daeth i'r casgliad bod cynnydd pellach wedi cael ei wneud ar gyfer y tri argymhelliad, ond nad oedd modd eu cymeradwyo eto fel rhai sydd wedi cael eu cyflawni. Felly, mae'r argymhellion hyn yn dal yn waith sydd ar y gweill, a bydd y Panel yn parhau i'w monitro yn ystod y chwarter nesaf.

8.2 CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Mae Cynllun Gwella Mamolaeth y Bwrdd Iechyd yn cynnwys 79 cam gweithredu. Roedd 70 o'r rheini'n deillio'n uniongyrchol o argymhellion y Colegau Brenhinol, a'r gweddill yn deillio o adolygiadau cysylltiedig neu gamau gweithredu a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dilyn ei ddadansoddiad ei hun.

Ar 13 Rhagfyr 2019, dywedodd y Bwrdd Iechyd fod 36 (46%) o'r 79 o argymhellion wedi cael eu cyflawni. Mae'r ffigur isod yn dangos sut mae'r 36 o argymhellion wedi cael eu dosbarthu ar draws y grwpiau prosiect.

Ffigur 4: Crynodeb o'r Cynnydd i gyflawni Argymhellion y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth



Yn ystod mis Rhagfyr 2019, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd dystiolaeth ar gyfer 27 o'r 36 o argymhellion er mwyn i'r Panel ei hasesu. Daeth y Panel i'r casgliad fod 25 o'r argymhellion hynny yn barod i gael eu 'cymeradwyo' fel rhai wedi'u cyflawni, a bod angen gwneud gwaith pellach ar y ddau argymhelliad arall cyn y gellid ystyried eu bod wedi cael eu cyflawni.

Mae 'Atodiad D' yn cynnwys rhestr o'r 25 o gamau gweithredu sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Panel fel rhai sydd wedi'u cyflawni.

Mae'r rhestr hefyd yn rhoi crynodeb o'r dystiolaeth a gafodd ei hasesu gan y Panel wrth ddod i benderfyniad. Bydd y rhestr yn dangos bod amryw o argymhellion wedi cael eu cyflawni erbyn hyn, a dyma'r rhai mwyaf nodedig:-

- datblygu proses archwiliadau clinigol a gwella'r prosesau a ddefnyddir i gofnodi digwyddiadau difrifol, i ymchwilio iddynt ac i ymateb iddynt;
- gwella ansawdd yr hyfforddiant a roddir i staff meddygol a staff bydwreigiaeth, ynghyd â chyfraddau cydymffurfio uwch a chynlluniau cadarn ar gyfer cyflawni yn y dyfodol;
- creu fframwaith llywodraethu clinigol cynhwysfawr, gyda thystiolaeth glir fod y fframwaith bellach ar waith ac yn arwain at welliannau mewn ymarfer clinigol.

Dros y chwech i'r deuddeg mis nesaf, bydd angen ailedrych o dro i dro ar nifer o'r argymhellion hyn, i sicrhau eu bod wedi cael eu gwreiddio'n llawn mewn arferion gweithredol. Bydd y Panel yn cynnwys y gwaith dilynol hwn yn ei raglen ymweliadau sicrwydd wrth symud ymlaen.

Er y cynnydd amlwg a nodwyd yn yr adroddiad hwn, mae llawer iawn o waith eto i'w wneud er mwyn cyflawni gweddill yr argymhellion yn adolygiad y Colegau Brenhinol a'r argymhellion cysylltiedig eraill, ac er mwyn sicrhau hefyd bod y gwelliannau sydd wedi cael eu cyflwyno hyd yma yn cael eu gwreiddio mewn ymarfer a'u bod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae dros ddwy ran o dair (68%) o'r camau gweithredu yn y Cynllun Gwella Mamolaeth yn dal yn waith ar y gweill (ar sail y camau y mae'r Panel wedi'u cymeradwyo fel rhai wedi'u cwblhau), a bydd angen newid y diwylliant a'r arferion gweithredol er mwyn cwblhau nifer o'r camau hynny. Mae profiad o sefyllfaoedd eraill yn dangos na fydd hynny'n digwydd dros nos. Felly, nid oes lle i laesu dwylo, ac mae angen canolbwyntio go iawn ar y broses gyflawni wrth symud ymlaen.

(Y CAMAU NESAF 10: Mae'r Panel yn disgwyl gweld gweddill yr argymhellion sydd ar ôl yn y Cynllun yn cael eu cyflawni, a phwyslais ar sicrhau bod yr argymhellion hynny sydd eisoes wedi'u cyflawni yn cael eu gwreiddio mewn arferion gweithredol).

8.3 DATBLYGU'R CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Er bod cynnydd cyson wedi'i wneud i gwblhau'r camau gweithredu yn y Cynllun Gwella Mamolaeth, mae angen i'r Cynllun ei hun gael ei ddatblygu ymhellach. Er bod y Cynllun wedi cyflawni diben hyd yma, nid oes digon o strwythur iddo, nid yw'n blaenoriaethu'n ddigonol ar hyn o bryd, ac nid yw'n ddeinamig; er enghraifft, nid yw'n cynnwys materion a ddaw i'r amlwg.

Rhestr o argymhellion yw'r Cynllun i bob pwrpas, gyda nifer ohonynt yn gorgyffwrdd â'i gilydd, yn hytrach na chynllun manwl sy'n egluro sut bydd y camau hynny'n cael eu cwblhau, pryd bydd hynny'n digwydd a beth fydd y canlyniad. Mae'r cynllun yn anhylaw yn sgil hynny, ac mae'r broses o'i weinyddu a'i oruchwylio yn fwy cymhleth nag y dylai fod. Mae Cadeirydd y Panel a'r Uwch-swyddog Cyfrifol wedi cytuno bod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y chwarter nesaf.

(Y CAMAU NESAF (11): Fel mater o flaenoriaeth, mae angen datblygu'r Cynllun Gwella Mamolaeth i fod yn gynllun mwy deinamig sy'n blaenoriaethu'n well ac yn cynnwys cerrig milltir clir, targedau ac elfennau allweddol i'w cyflawni).

8.4 FFYNONELLAU ERAILL O WYBODAETH A THYSTIOLAETH

Er bod y Panel wedi canolbwyntio ar sicrhau bod yna sylfaen dystiolaeth i ddangos cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth, mae gwybodaeth arall wedi bod ar gael hefyd sy'n dangos bod y gwasanaethau yn gwella a bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau menywod a theuluoedd. Er enghraifft:-

- dros y tri mis diwethaf, mae'r arolygon a gynhelir ddwywaith yr wythnos gan Wasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion y Bwrdd Iechyd wedi canfod lefelau cyson uchel o fodlonrwydd ymhlith menywod sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae tystiolaeth hefyd fod yr adborth yn gynyddol gadarnhaol ymhlith menywod a theuluoedd o ran ansawdd ac urddas y gofal sy'n cael ei ddarparu yng Nghanolfan Eni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg;
- mae'r adborth mwy cadarnhaol gan fenywod a theuluoedd yn cael ei gadarnhau i raddau sylweddol gan adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg, yn dilyn ymweliadau dirybudd ag Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn ystod mis Mehefin, Gorffennaf a Medi 2019;
- mae adroddiadau diweddar gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi amlygu gwelliannau graddol o ran yr amgylchedd hyfforddi a'r addysg a roddir i staff meddygol sy'n gweithio yn y tîm obstetreg, er bod angen sylw pellach o hyd ar rai elfennau.

Efallai mai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – a gyhoeddodd ei adroddiad ar arolygiad tridiau dirybudd o Ganolfan Eni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ym mis Medi – sydd wedi darparu'r dangosydd cynnydd mwyaf addawol hyd yma. Daw'r adroddiad hwn, a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2019, i'r casgliad yn gyffredinol *'fod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu'* a bod y staff *'yn dangos brwdfrydedd ac awydd clir i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, mewn amgylchedd cartrefol, hamddenol'*. Roedd angen gwella nifer bach o elfennau, ond nid oedd hynny'n awgrymu bod gwendidau sylfaenol yn y gwasanaeth.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn aros i gael canlyniad arolygiad dirybudd o'r gwasanaeth a ddarperir o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Cynhaliwyd yr arolygiad ym mis Tachwedd 2019. Disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir, a dyma fydd yr asesiad allanol pwysicaf eto o'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

8.5 ASESAD CYFFREDINOL O'R CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Wrth ystyried y cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth, y cynnydd pellach yn erbyn y camau gweithredu 'gwneud yn ddiogel' a'r naratif mwy cadarnhaol sy'n dod i'r amlwg o adolygiadau allanol a ffynonellau eraill, mae'r Panel yn credu bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da yn ystod mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2019. Fodd bynnag, mae llawer iawn o waith eto i'w wneud, ac mae angen datblygu'r Cynllun Gwella Mamolaeth ymhellach.

9 Y CASGLIADAU A'R CAMAU NESAF

Er bod llawer iawn o waith eto i'w wneud er mwyn cyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol yn llawn, mae'r Panel yn credu bod y Bwrdd Iechyd, at ei gilydd, wedi gwneud cynnydd da yn ystod mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2019. Felly, mae'r Panel yn ofalus obeithiol y caiff gwelliannau cynaliadwy hirdymor eu cyflawni yn y gwasanaethau mamolaeth gyda hyn.

Mae tystiolaeth bendant o gynnydd pellach yn erbyn y 79 o argymhellion a nodwyd yn adroddiad y Colegau Brenhinol ac mewn adolygiadau cysylltiedig, ac mae arwyddion clir – a ategir gan wybodaeth o ystod o ffynonellau mewnol ac allanol – fod y gwasanaeth yn gwella yn fwy cyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd wedi cael ei wneud yn yr elfen Gofal Diogel ac Effeithiol. Yn benodol, mae creu fframwaith llywodraethu clinigol cynhwysfawr, gyda thystiolaeth fod y fframwaith bellach ar waith ac yn arwain at wella ymarfer clinigol, yn gam mawr ymlaen. Yn yr un modd, mae datblygu proses archwiliadau clinigol a gwneud gwelliannau parhaus i'r prosesau a ddefnyddir i gofnodi digwyddiadau difrifol, i ymchwilio iddynt ac i ymateb iddynt, yn creu sylfeini cadarn ar gyfer gwasanaeth a fydd yn fwy diogel ac yn fwy effeithiol wrth symud ymlaen.

Gwelwyd cynnydd yn yr elfen Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth hefyd, yn enwedig o ran hyfforddi a datblygu staff meddygol a staff bydwreigiaeth. Mae hefyd yn galonogol bod rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a diwylliant wedi cael eu lansio ar draws y Bwrdd Iechyd, gyda dwy raglen yn targedu'r gwasanaethau mamolaeth yn benodol.

Yn y cyfamser, mae cynnydd wedi cael ei wneud gyda'r rhaglen adolygiadau clinigol hefyd. Mae'r rhaglen hon yn barod i gael ei rhoi ar waith erbyn hyn, ac mae camau pwysig wedi cael eu cymryd i ymgysylltu'n fwy effeithiol â menywod a theuluoedd.

Yn y sefyllfa honno o gynnydd cyffredinol, mae pethau wedi llithro rhywfaint o ran datblygu'r IPAAF ac ailddatblygu'r Cynllun Gwella Mamolaeth. Bydd angen rhoi pwyslais o'r newydd ar hynny yn ystod y chwarter nesaf. Yn sgil hynny, bydd yr adroddiad chwarterol nesaf yn gallu bod yn fwy seiliedig ar dystiolaeth, a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

Hefyd mae angen cyflymu'r gwaith a chynyddu disgyblaeth weinyddol y Bwrdd Iechyd wrth iddo reoli'r broses wella, ac mae trafodaethau adeiladol wedi cael eu cynnal er mwyn cytuno ar strwythur diwygiedig a chynyddu'r capasiti, a fydd yn datrys y problemau hynny.

Mae'r 'camau nesaf' wedi cael eu nodi hwnt ac yma yn yr adroddiad, ac maen nhw'n cael eu hadlewyrchu yn y blaenoriaethau isod.

9.1 Y PRIF FLAENORIAETHAU AR GYFER Y CHWARTER NESAF

Mae'r Panel a'r Uwch-swyddog Cyfrifol wedi cytuno ar y prif flaenoriaethau canlynol ar gyfer y tri mis nesaf:-

- cynnal gweddill y digwyddiadau ymgysylltu â menywod a theuluoedd, asesu'r canlyniadau a datblygu cynllun i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y gwaith (Camau Nesaf 1, 2 a 3);
- monitro a gweithredu'r Cynllun Gwella Prosesau Cwynion a Phryderon, ac ymgorffori'r metrigau sy'n cael eu datblygu i fonitro'r broses o wella'r IPAAF (Cam Nesaf 4);
- bwrw ymlaen â'r rhaglen adolygiadau clinigol i'r cam rhoi ar waith, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r menywod a'r teuluoedd perthnasol (Camau Nesaf 5 a 6);
- datblygu'r IPAAF ymhellach gyda metrigau mwy soffistigedig, blaenoriaethau cliriach a thargedau ymestynnol – ond posibl – dros amser (Cam Nesaf 7);
- sicrhau bod yr holl adnoddau sydd eu hangen i ategu'r Cynllun Gwella Mamolaeth yn eu lle erbyn diwedd mis Ionawr 2020, a bod y Tîm Gwella Mamolaeth wedi cael ei ailstrwythuro a'i gynyddu er mwyn sicrhau mwy o gapasiti a chadernid (Cam Nesaf 8);
- pan fydd yn briodol, sicrhau bod y cynllun gweithredu sy'n cael ei ddatblygu mewn ymateb i'r adolygiad thematig o drefniadau llywodraethu ansawdd – a gynhaliwyd ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru – yn gyson â'r Cynllun Gwella Mamolaeth (Cam Nesaf 9);
- parhau â'r gwaith o gyflawni'r argymhellion yn y Cynllun sydd eto i'w cyflawni, a chanolbwyntio ar sicrhau bod yr argymhellion hynny sydd eisoes wedi'u cyflawni yn cael eu gwreiddio mewn arferion gweithredol (Cam Nesaf 10);
- datblygu'r elfennau hynny o'r Cynllun Gwella Mamolaeth sydd eto i'w cyflawni, er mwyn creu dogfen fwy deinamig sy'n newid drwy'r amser ac yn cynnwys camau gweithredu cliriach, cerrig milltir i'w cyflawni a chanlyniadau y gellir eu mesur (Camau Nesaf 11).

Bydd yr holl faterion hyn yn cael eu monitro drwy gylch busnes misol y Panel, a bydd y Panel yn adrodd arnynt wrth gyflwyno ei adroddiad diweddarau chwarterol nesaf i'r Gweinidog.

9.2 ARGYMHELLION

Wrth ystyried y cynnydd cyson sy'n cael ei wneud, ac ymrwymiad parhaus y Bwrdd Iechyd i'r broses wella, nid yw'r Panel yn teimlo bod angen gwneud unrhyw argymhellion penodol ar hyn o bryd.

10 RHESTR O ATODIADAU

Atodiad A: Cylch Gorchwyl

Atodiad B: Y Map Gweledol: Gwella Gwasanaethau Mamolaeth Gyda'n Gilydd
(Merthyr Tudful)

Atodiad C: Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig

Atodiad D: Rhestr o argymhellion y Cynllun Gwella Mamolaeth

Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth Cylch Gorchwyl

Pwrpas y Panel Trosolwg Annibynnol

Darparu'r oruchwyliaeth¹ sy'n angenrheidiol i alluogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i roi'r argymhellion yn adroddiad y Colegau Brenhinol ar waith mewn modd amserol, agored a thryloyw.


Cylch Gorchwyl

- Sefydlu trefniadau cadarn sy'n rhoi sicrwydd i randdeiliaid bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu'r argymhellion yn adolygiad y Colegau Brenhinol ac argymhellion eraill cysylltiedig. Pennu a chytuno ar gerrig milltir ac elfennau allweddol i'w cyflawni a thracio cynnydd mewn perthynas â'r rhain;
- Sefydlu a chytuno ar broses amlddisgyblaethol annibynnol i gynnal adolygiad clinigol o'r digwyddiadau difrifol yn 2016-2019 y mae'r Colegau Brenhinol wedi'u nodi fel rhai y mae angen ymchwiliad pellach iddynt. Cynnal ymarfer 'golwg yn ôl' i 2010 a sicrhau bod unrhyw rai sydd â phryderon cyfiawn am eu gofal yn cael cyfle i gael adolygiad o'r gofal hwnnw. Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd ac eraill yn gweithredu ar unrhyw wersi i'w dysgu sy'n cael eu hamlygu gan yr adolygiadau hyn;
- Cynghori'r Bwrdd Iechyd ar y camau y mae angen iddo eu cymryd i sefydlu trefniadau ymgysylltu effeithiol sy'n cynnwys cleifion a staff mewn modd gweithredol yn y broses o wella gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth ac adennill ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y Bwrdd Iechyd;
- Uwchgyfeirio unrhyw faterion neu bryderon ehangach sy'n ymwneud â llywodraethu i'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru fel sy'n briodol;
- Rhoi gwybod i'r Gweinidog am unrhyw gamau pellach y mae'r Panel yn eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaethau newyddenedigol a gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu'n ddiogel, yn gynaliadwy ac i safon uchel, ac yn canolbwyntio ar y claf. Dylai hyn gynnwys cyngor ar yr angen am unrhyw adolygiadau annibynnol dilynol, ac amseru'r rheini, a nodi unrhyw wersi pellach ar gyfer y GIG yng Nghymru.

¹ Ystyr y term 'oruchwyliaeth' yw cyfuniad o fesurau sydd wedi'u pennu'n wrthrychol (gan gynnwys gosod targedau, monitro, craffu, herio, gwerthuso sefyllfaoedd yn wrthrychol a rhoi arweiniad, anogaeth a chymorth) sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid (gan gynnwys cleifion, staff a'r cyhoedd) bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r gwelliannau y mae'n ofynnol iddo eu cyflawni.



Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig



Rhestr o argymhellion y Cynllun Gwella Mamolaeth a gofnodwyd fel rhai wedi'u cyflawni yn ystod yr ail chwarter (Hydref-Rhagfyr 2019)

Mae Cynllun Gwella Mamolaeth y Bwrdd Iechyd yn cynnwys 79 cam gweithredu. Roedd 70 o'r rheini'n deillio'n uniongyrchol o argymhellion y Colegau Brenhinol, a'r gweddill yn deillio o adolygiadau cysylltiedig neu gamau gweithredu a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dilyn ei ddadansoddiad ei hun.

Yn ystod mis Rhagfyr 2019, bu'r Panel yn asesu tystiolaeth ategol a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd. Roedd yn cytuno bod cynnydd wedi'i wneud ar 25 o gamau gweithredu yn ystod yr ail chwarter, a bod y camau hynny'n barod i gael eu 'cymeradwyo' fel rhai a oedd wedi cael eu cwblhau. Cytunodd fod tri cham gweithredu arall yn agos iawn at gael eu cwblhau, ond cafodd y broses o'u cymeradwyo ei gohirio tan y chwarter nesaf er mwyn eu dilysu ymhellach.

Mae 25 o gamau gweithredu wedi'u cwblhau o blith y 79, ac mae'r rheini'n ychwanegol at yr 8 argymhelliad 'gwneud yn ddiogel' a gytunwyd fel rhai a oedd wedi'u cyflawni ar ddiwedd y chwarter cyntaf. Felly, o blith y 79 o gamau gweithredu, roedd cyfanswm o 33 wedi cael eu cwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2019.

Mae'r tabl isod yn cynnwys manylion y 25 o gamau gweithredu a gafodd eu cymeradwyo fel rhai wedi'u cwblhau yn ystod yr ail chwarter, ac maen nhw wedi cael eu grwpio yn ôl grŵp prosiect. Mewn rhai achosion, teimlai'r Panel fod angen cynnal adolygiad dilynol er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu gwreiddio mewn ymarfer. Yn yr achosion hynny, mae hynny wedi cael ei nodi yn y tabl, a bydd archwiliadau pellach yn cael eu cynnwys yn rhaglen ymweliadau sicrwydd y Panel wrth symud ymlaen.

Mae'n bwysig cydnabod bod angen i'r Bwrdd sicrhau ei hun bod digon o dystiolaeth ar gael i gymeradwyo'r argymhelliad fel un sydd wedi cael ei gyflawni. Rôl y Panel yw sicrhau ansawdd tystiolaeth y Bwrdd Iechyd, er mwyn rhoi sicrwydd i'r Gweinidog ac i randdeiliaid eraill bod asesiad y Bwrdd Iechyd yn rhesymol ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael.

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Gofal Diogel ac Effeithiol					
Cyfeirnod y Cam Gweithredu:	Y Ffynhonnell	Yr Argymhelliad	Cytunwyd bod yr argymhelliad wedi cael ei gyflawni	Angen adolygiad dilynol?	Crynodeb o'r ymatebion a'r dystiolaeth a gyflwynwyd
7.3	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Archwiliad Clinigol – Awdurdodi a chynnal rhaglen archwilio lawn dan arweiniad clinigol gyda meddyg ymgynghorol arweiniol a enwebwyd i fesur perfformiad a chanlyniadau ar sail y canllawiau.	16.12.19	Y penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd Iechyd.	- Cafodd meddyg ymgynghorol arweiniol ei enwebu ym mis Mai 2019. - Mae Cynllun Archwilio wedi cael sêl bendith drwy'r strwythur Llywodraethu. - Mae'r Cynllun Archwilio wedi cael ei fonitro drwy'r Fforwm Archwilio ac Ymchwil. - Penodwyd bydwraig ymchwil i gefnogi'r broses o recriwtio ar gyfer prosiectau ymchwil cenedlaethol a drefnwyd ar gyfer 2020, gyda chyllid gan raglen ymchwil y Bwrdd Iechyd.

7.4	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Monitro Ymarfer Clinigol – Sicrhau bod ymarfer clinigol yr holl staff yn cael ei fonitro gan y Cyfarwyddwr Clinigol a Phennaeth Bydwreigiaeth (i) i sicrhau cydymffurfio â'r canllawiau (ii) i sicrhau bod cymhwysedd a chysondeb perfformiad yn rhan o'r arfarnu blynyddol.	16.12.19	Y penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd Iechyd.	- Mae Adolygiadau Datblygu Personol yn eu lle ar gyfer yr holl staff. - Mae'r holl unedau yn cynnal sesiynau myfyrio clinigol. - Mae'r sesiynau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn rhai amlddisgyblaethol. Mae'r sesiynau hyn yn help i herio a chael trafodaethau am ganllawiau clinigol. - Mae cyfarfodydd ynghylch digwyddiadau clinigol yn cael eu cynnal yn y ddwy uned Obstetreg. Mae'r ffaith bod timau amlddisgyblaethol yn bresennol yn help i nodi amrywiadau o ran arferion a'r gwersi a ddysgwyd. Mae'r rheini'n cael eu rhannu drwy'r cylchlythyr risg misol, neu mae materion diogelwch brys yn cael eu rhannu drwy'r 'Briffiau Diogelwch'. - Mae'r dangosfwrdd clinigol yn cael ei rannu â'r staff i sicrhau bod clinigwyr yn cael gwybodaeth yn rheolaidd am ganlyniadau. - Mae grwpiau Lleihau Cyfraddau Toriadau Cesaraidd a Chymell Geni wedi cael eu datblygu, er mwyn cynnig her glinigol o ran cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol neu leol.
-----	--	--	----------	---	--

7.9	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Rhestrau Trothwyon – Datblygu rhestr trothwyon ar gyfer sefyllfaoedd sy'n galw am bresenoldeb meddyg ymgynghorol ar y ward geni y bydd yn rhaid iddi (i) gael ei derbyn gan yr holl feddygon obstetreg, pediatreg ac anestheteg ymgynghorol a bydwagedd uwch, (ii) cael ei harchwilio a'i chofnodi ar y dangosfwrdd mamolaeth.	16.12.19	Y penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd Iechyd.	- Mae'r rhestr trothwyon wedi cael ei datblygu a'i gwreiddio yn y System Technoleg Gwybodaeth Mamolaeth (MITS); - Mae data DATIX yn cael eu cofnodi drwy'r dangosfwrdd er mwyn monitro cyfraddau adrodd; - Ar hyn o bryd, mae'r Gyfarwyddiaeth yn defnyddio'r fersiwn ddrafft o'r Rhestr Trothwyon ar gyfer Digwyddiadau Difrifol, a ddatblygwyd gan y Penaethiaid Bydwreigiaeth. Mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol, ac mae gan y Bwrdd Iechyd gynrychiolaeth yn y grŵp.
7.10	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Cyfarfodydd Rheoli Risg – Cyflwyno cyfarfodydd rheoli risg rheolaidd a fydd (i) yn agored i'r holl staff, (ii) yn cael eu cynnal mewn ffordd agored a thryloyw, (iii) yn cael eu cynnal ar amser ac mewn lle a fydd yn caniatáu i'r nifer mwyaf posibl fod yn bresennol.	16.12.19	Bydd y Panel yn cynnal adolygiad dilynol ar ôl chwe mis, i wneud yn siŵr bod yr arferion hyn wedi cael eu gwreiddio.	- Mae'r dyddiadau llywodraethu clinigol i'w gweld ym mhob ardal glinigol. - Mae'r holl staff yn cael gwybod am y cyfarfodydd drwy e-bost, ac mae copi o'r agenda yn cael ei atodi. - Mae cyfarfod adolygu digwyddiadau yn cael ei gynnal yn wythnosol. - Mae'r Fydwraig sy'n cadw golwg ar y ffetws yn monitro'r cofnodion DATIX ar gyfer unrhyw gleifion sy'n dod o dan y Protocol Asesu Twf. Mae unrhyw bryderon a nodir yn cael sylw yn y cyfarfod adolygu digwyddiadau a gynhelir yn wythnosol. Mae'r fydwraig yma hefyd yn cynnal hyfforddiant unwaith y mis ynghylch y Protocol Asesu Twf ar ddiwrnodau hyfforddiant sy'n orfodol i'r staff. - Mae pob math o dystiolaeth (posteri, dalenni presenoldeb, cylchlythyrau, cofnodion cyfarfodydd, cyflwyniadau ac ati) wedi cael ei chyflwyno i ddangos bod llawer o ymgysylltu'n digwydd fel mater o drefn erbyn hyn.

7.11	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Cyfarfodydd Gorfodol – Sicrhau presenoldeb gorfodol yn y cyfarfodydd canlynol ar gyfer yr holl staff priodol. Rhaid cofnodi presenoldeb a'i gynnwys mewn arfarniadau staff. Sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu hamserlennu neu fod gweithgarwch clinigol dewisol yn cael ei addasu i ddarparu ar gyfer ymbresenoli mewn (i) cyfarfodydd llywodraethu, (ii) cyfarfodydd archwilio, (iii) cyfarfodydd ar farwolaethau amenedigol.	16.12.19	Bydd y Panel yn cynnal adolygiad dilynol ar ôl chwe mis, i wneud yn siŵr bod yr arferion hyn wedi cael eu gwreiddio.	- Mae cyfarfod diwrnod cyfan am faterion llywodraethu yn cael ei gynnal erbyn hyn. - Mae'r gofrestr presenoldeb yn cael ei llenwi ac ar gael i'w harchwilio, ac mae'n dangos presenoldeb da gan dimau amlddisgyblaethol. - Mae presenoldeb mewn fforymau'n cael ei reoli drwy strwythur llywodraethu, ac mae hynny'n golygu bod yr holl glinigwyr ar draws y Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn y fforymau (gan gynnwys Ysbyty Tywysoges Cymru ers mis Ebrill 2019). - Mae arferion cofnodi o ran uwch reolwyr yn rhan o'r diwylliant erbyn hyn.
7.12	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Sesiynau ôl-drafod y Timau Amlddisgyblaethol – Cynnal sesiynau ôl-drafod amlddisgyblaethol wedi'u hwyluso gan staff mamolaeth uwch ar ôl canlyniad annisgwyl.	16.12.19	Y penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd Iechyd.	- Mae proses ôl-drafod ar waith ar gyfer Timau Amlddisgyblaethol erbyn hyn. - Mae cofnodion o sesiynau ôl-drafod a phresenoldeb ar gael ac yn cael eu harchwilio. - Mae'r tîm mamolaeth yn cael ei hyfforddi a'i ddatblygu, ac mae sesiynau meincnodi tebyg yn cael eu cynnal. (SBAR ar gael).

7.14	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Cyfarfodydd Meddygon Ymgynghorol – Dylai cyfarfodydd meddygon ymgynghorol (i) gael eu cynnal yn rheolaidd, (ii) cynnwys eitem sefydlog ar yr agenda ar lywodraethu, (iii) bod yn gyfarfodydd ar y cyd â chyd-feddygon pediatreg ac anestheteg ymgynghorol.	16.12.19	Y penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd Iechyd.	- Cynhelir cyfarfodydd meddygon ymgynghorol yn fisol – mae slot benodol o awr yn cael ei neilltuo ym mhob Diwrnod Llywodraethu. Mae agenda ar gael sydd wedi cael ei rhannu ymlaen llaw, a bydd cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi cael eu hatodi. Mae'r holl staff mamolaeth yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol, ynghyd â chydweithwyr ym maes anestheteg a phediatreg. Y dystiolaeth a gyflwynwyd – y rhestr presenoldeb a atodwyd.
7.16	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Sicrhau bod Meddygon Ymgynghorol ar gael – Rhaid cymryd camau ar frys i sicrhau y bydd obstetryddion ymgynghorol ar gael ar unwaith pan fyddant ar alwad (30 munud ar y mwyaf rhwng yr alwad a bod yn bresennol).	16.12.19	Mae'r Panel yn cynnal archwiliadau chwarterol i sicrhau bod y cydymffurfio'n parhau.	- Mae'r polisi ar waith ac yn cael ei ailorfodi. Mae argaeledd meddygon ymgynghorol yn cael ei fonitro, ac achosion yn cael eu huwchgyfeirio pan fydd pryderon. Mae'r Panel yn profi'r cydymffurfio. - Mae'r tîm risg yn monitro hyn drwy adolygu digwyddiadau, a sawl gwaith mae'r meddyg ymgynghorol yn cael ei alw 'y tu allan i oriau' ac yn cyrraedd o fewn yr amser ymateb sy'n cael ei argymhell, sef 30 munud. - Mae'r fydwraig risg yn cadw cofnodion i gael eu harchwilio. - Yn 2020, bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr archwiliad blynyddol o'r broses cadw cofnodion a ddefnyddir gan staff meddygol a staff bydwreigiaeth. Bydd y cynllun archwilio yn adrodd yn ôl ar y cydymffurfio yn unol â'r safon hon. - Mae llety ar gael ar y safle i feddygon ymgynghorol pan fydd angen, gyda fflat benodol ar gyfer obstetryddion a gynaecolegwyr ymgynghorol.

7.21	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Cofnodi Digwyddiadau – Gwella'r ffordd o gofnodi digwyddiadau drwy (i) ddarparu hyfforddiant ar ddefnyddio system Datix i'r holl staff, (ii) hybu'r defnydd o system Datix i gofnodi digwyddiadau clinigol, (iii) monitro'r defnydd o'r system cofnodi digwyddiadau.	16.12.19	Mae'r Panel yn cynnal archwiliadau chwarterol i sicrhau bod y cydymffurfio'n parhau.	- Bydd yr holl staff wedi cael hyfforddiant Datix erbyn diwedd mis Mawrth 2021. - Bydd diweddariadau yn cael eu darparu drwy'r rhaglen hyfforddiant blynyddol. - Mae'r staff yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am gofnodi digwyddiadau, ac mae'r rhestr trothwyon sy'n gysylltiedig â MITS yn helpu i gynnal lefelau da o gofnodi.
7.23	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Dysgu o Ddigwyddiadau Difrifol – Gwella'r ffordd o ddysgu gwersi ar ôl digwyddiadau drwy rannu canlyniadau digwyddiadau difrifol yn rheolaidd ac mewn fformat cyson, priodol a hawdd ei ddeall.	16.12.19	Mae'r Bwrdd lechyd yn monitro hyn yn barhaus.	- Mae pob digwyddiad difrifol yn cael ei adolygu gan y Tîm Amlddisgyblaethol erbyn hyn. - Mae'r gwersi a ddysgir yn dilyn digwyddiadau difrifol yn cael eu rhannu â'r Bwrdd lechyd a'r Gyfarwyddiaeth drwy (i) Gylchlythyr Llywodraethu, (ii) Cofnodion archwilio clinigol yn dilyn y Diwrnod Llywodraethu, (iii) Agendâu Ansawdd a Diogelwch y tîm Obstetreg, (iv) monitro'r cynllun gweithredu. - Cafodd pob math o dystiolaeth ei chyflwyno i'r Panel ei harchwilio, gan gynnwys (i) dalenni presenoldeb ar gyfer cyfarfodydd adolygu digwyddiadau, (ii) cylchlythyrau cofnodi digwyddiadau, (iii) cofnodion eitemau archwilio ar gyfer cyfarfodydd diwrnodau llywodraethu, (iv) cofnodion cyfarfodydd staff, (v) agendâu cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch.

7.26	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Archwiliadau ar y cyd gan wasanaethau Newyddenedigol a Mamolaeth – Cytuno ar archwiliadau wedi'u perchenogi ar y cyd gan wasanaethau newyddenedigol a mamolaeth o ddata gwasanaethau newyddenedigol, yn cynnwys data am ganlyniadau newyddenedigol, marwolaethau amenedigol, trosglwyddo babanod cyfnod llawn i Unedau Gofal Arbennig Babanod, anfon babanod i'w hoeri, adrodd ar gyfer Each Baby Counts, adrodd ar gyfer MBRRACE, cyfraddau bwydo ar y fron, gofal croen wrth groen ar ôl y geni, heintiau newyddenedigol, achredu Cyfeillgar i Fabanod, achredu ar gyfer siarter Bliss Baby.	16/12/2019	Bydd y Panel yn cynnal adolygiad dilynol ar ôl chwe mis, i wneud yn siŵr bod yr arferion hyn wedi cael eu gwreiddio.	- Mae Cynllun Archwilio ar waith, ac mae'r cydymffurfio yn cael ei fonitro. - Mae trefniadau adrodd cenedlaethol yn cael eu dilyn. - Mae fforymau ar waith ac yn monitro'r perfformiad archwilio ar hyn o bryd. - Bydd targedau sylfaenol yn cael eu gosod drwy'r fframwaith IPAAF ar gyfer y perfformiad a ddisgwylir.
------	--	---	------------	--	--

7.36	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Goruchwyliaeth Glinigol a Goruchwyliaeth gan Feddygon Ymgynghorol – Rhaid sefydlu goruchwyliaeth glinigol a goruchwyliaeth gan feddygon ymgynghorol dros weithdrefnau ymarferol ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys bydwagedd arbenigol a meddygon.	16/12/2019	Y penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd Iechyd.	- Creu un uned obstetreg gyfun, gan gynyddu nifer yr oriau o bresenoldeb gan feddyg ymgynghorol yn y ward geni (ddim ar alwad) o 40 awr i 60 awr yr wythnos. - Llai o gyfnodau trosglwyddo – dwywaith yn lle pedair gwaith mewn unrhyw gyfnod o 24 awr, er mwyn sicrhau bod meddyg ymgynghorol yn bresennol ar y ward geni. - Mae'r holl feddygon ymgynghorol yn gwneud rownd ward fel rhan o'u cynlluniau swydd. - Mae'r adborth gan Ddeoniaeth Feddygol Addysg a Gwellu Iechyd Cymru yn awgrymu nad yw hyn yn broblem mwyach gyda hyfforddeion. - Mae diweddariadau'n cael eu rhoi ar y dangosfwrdd clinigol wythnosol. - Mae hyn yn cael ei brofi drwy arsylwadau'r Panel a sgysiau â'r staff.
7.38	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Meddygon Ymgynghorol yn cymryd perchnogaeth ar y ward – Sicrhau bod y meddyg ymgynghorol sydd ar alwad ar gyfer y ward geni yn cynnwys yr holl gleifion yn yr uned famolaeth yn ystod ei gyfnod ar alwad. Rhaid i hyn gynnwys ymgymryd â rownd y ward gynenedigol gan y meddyg ymgynghorol.	16/12/2019	Mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio hyn yn barhaus.	- Creu un uned obstetreg gyfun, gan gynyddu nifer yr oriau o bresenoldeb gan feddyg ymgynghorol yn y ward geni (ddim ar alwad) o 40 awr i 60 awr yr wythnos. - Llai o gyfnodau trosglwyddo – dwywaith yn lle pedair gwaith mewn unrhyw gyfnod o 24 awr, er mwyn sicrhau bod meddyg ymgynghorol yn bresennol ar y ward geni. - Mae'r adborth gan Ddeoniaeth Feddygol Addysg a Gwellu Iechyd Cymru yn awgrymu nad yw hyn yn broblem mwyach gyda hyfforddeion. - Mae diweddariadau'n cael eu rhoi ar y dangosfwrdd clinigol wythnosol. - Mae hyn yn cael ei brofi drwy arsylwadau'r Panel a sgysiau â'r staff. - Mae cynlluniau swyddi ANC yn cael eu cyflwyno, a'u harchwilio gan y Panel.

7.59	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Asesu'r Risg cyn Uno – Cynnal asesiad risg llawn ar frys cyn ymrwmo i'r uno ar 9 Mawrth 2019 er mwyn sicrhau diogelwch menywod, gan gynnwys sicrhau bod hyd yr arhosiad yn cael ei fyrhau'n ddiogel i ddarparu ar gyfer capasiti digonol yn yr uned newydd ar ôl yr uno.	16/12/2019	Mae'r gwaith cyn yr uno wedi cael ei gwblhau.	- Mae asesiad risg wedi cael ei gynnal cyn y symud. - Mae'r asesiad risg wedi cael ei adolygu ar lefel y bwrdd. - Mae adroddiadau Aciwtedd yn cael eu cyflawni'n ddyddiol er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei fonitro. - Mae Ysbyty'r Tywysog Siarl yn gweithredu gyda chapasiti llawn yn rheolaidd. - Mae cyfleoedd i ddefnyddio mwy ar yr uned dan ofal bydwagedd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.
7.60	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Monitro'r gostyngiad mewn capasiti ar gyfer cleifion mewnol – Monitro'r effeithiau o leihau'r capasiti ar gyfer cleifion mewnol er mwyn osgoi unrhyw effeithiau niweidiol ar ddiogelwch neu ansawdd y gwasanaeth.	16.12.19	Mae'r gwaith cyn yr uno wedi cael ei gwblhau.	- Mae adroddiadau Aciwtedd yn cael eu cyflawni'n ddyddiol er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei fonitro. - Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r broses yn wythnosol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. - Mae Ysbyty'r Tywysog Siarl yn gweithredu gyda chapasiti llawn yn rheolaidd.
7.61	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Cynyddu'r capasiti ar gyfer cleifion mewnol – Datblygu cynllun i gynyddu'r capasiti ar gyfer cleifion mewnol os gwelir bod angen gwneud hynny.	16/12/2019	Mae hyn yn cael ei fonitro'n barhaus.	- Mae DATIX yn cael ei fonitro ac mae ardal ar gael i dderbyn cleifion ychwanegol. - Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd i wneud cynlluniau wrth gefn rhanbarthol. - Mae'r holl archebion y tu allan i'r ardal yn cael eu monitro drwy aelod penodol o'r staff yn yr adran gwybodeg. - Does dim gofyniad ar waith ar hyn o bryd i gynyddu'r capasiti ar gyfer cleifion mewnol (aseswyd ddiwethaf ym mis Medi 2019), ond mae hyn yn cael ei fonitro'n barhaus.

7.65	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Meini prawf ar gyfer yr Uned Fydwreigiaeth Annibynnol newydd – Sicrhau bod grŵp canllawiau mamolaeth amlddisgyblaethol yn cytuno ar feini prawf ar gyfer agor yr Uned Fydwreigiaeth Annibynnol a bod sicrwydd ynghylch parodrwydd ar gyfer yr uno.	16/12/2019	Mae'r gwaith cyn yr uno wedi cael ei gwblhau.	- Mae'r SOP wedi cael ei gymeradwyo a'i uwchgyfeirio drwy'r fframwaith llywodraethu.
7.66	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Cofrestr Risgiau – Diweddarau'r gofrestr risgiau a'i hadolygu'n rheolaidd ar lefel y Bwrdd.	Dydy'r Gofrestr Risgiau ddim ar gael, ac felly dydy'r Panel ddim yn gallu dilysu hyn.	Mae hyn wedi cael ei ohirio tan y cyfnod adrodd nesaf.	- Cofnodion y fforymau a'r pwyllgor cydweithio. - Mae'r Gofrestr Risgiau wedi cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg (ddim ar gael i'w harchwilio).

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth					
Cyfeirnod y Cam Gweithredu:	Y Ffynhonnell	Yr Argymhelliad	Cytunwyd bod yr argymhelliad wedi cael ei gyflawni	Angen adolygiad dilynol?	Crynodeb o'r ymatebion a/neu'r dystiolaeth a gyflwynwyd
7.6	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Rhaglen gynefino safonol ar gyfer staff Obstetreg a Gynaecoleg Ymgynghorol – Rhaid i staff obstetreg a gynaecoleg ymgynghorol ddarparu (i) rhaglen gynefino safonol i'r holl staff meddygol iau newydd, (ii) rhaglen gynefino safonol i'r holl feddygon locwm.	16/12/2019	Bydd y Panel yn cynnal adolygiad dilynol ar ôl chwe mis, i wneud yn siŵr bod yr arferion hyn wedi cael eu gwreiddio.	- Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi sefydlu rhaglenni cynefino. - Cafwyd tystiolaeth o hyn drwy adborth gan staff locwm a staff meddygol iau yn dilyn arolygon mewnol, a drwy adborth i Ddeoniaeth Feddygol Addysg a Gwella Iechyd Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. - Mae tystiolaeth wedi cael ei chyflwyno i'r Panel ar ffurf dogfennau (e.e. adroddiad Ymweliad wedi'i Dargedu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Canllaw Cynefino i Staff Locwm a gyhoeddwyd gan y Gyfarwyddiaeth, Ffurflenni Adborth ar Broses Gynefino Staff Locwm, templed arfarniad 360 gradd).
7.13	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Arweinydd Clinigol, Llywodraethu – Enwi arweinydd clinigol ar gyfer llywodraethu o blith corff y meddygon ymgynghorol. Rhaid i'r unigolyn hwn (i) fod yn atebol am lywodraethu da, (ii) mynychu cyfarfodydd llywodraethu i sicrhau arweinyddiaeth ac ymgysylltu.	16.12.19	Bydd y Panel yn cynnal adolygiad dilynol ar ôl chwe mis, i wneud yn siŵr bod yr arferion hyn wedi cael eu gwreiddio.	- Mae Cyfarwyddwr Clinigol wedi cael ei benodi a'i enwi fel arweinydd clinigol ar gyfer llywodraethu. Mae tystiolaeth wedi cael ei rhannu â'r Panel – drwy gofnodion cyfarfodydd, dogfennau a nodiadau briffio rheolaidd – bod y cyfrifoldebau wedi cael eu hysgwyddo. - Mae meddyg ymgynghorol arweiniol wedi cael ei benodi ar gyfer Risg a Llywodraethu. - Mae tystiolaeth wedi cael ei chyflwyno i'r Panel ar ffurf dogfennau (cofnodion a phresenoldeb ar gyfer y Diwrnodau Llywodraethu, enwi arweinwyr llywodraethu).

7.25	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Arweinwyr Bydwreigiaeth a Meddygon Ymgynghorol ar gyfer Gwella Ansawdd ac Archwiliadau Clinigol – Penodi arweinydd o blith y meddygon ymgynghorol a'r bydwreigedd ar archwilio clinigol/gwella ansawdd a fydd yn cael digon o amser a chymorth i gyflawni'r rôl er mwyn sicrhau (i) bod archwiliadau clinigol yn amlldisgyblaethol, (ii) bod system wedi'i dilysu ar sail glinigol ar gyfer casglu data, (iii) bod yr arweinydd yn annog yr holl staff meddygol i gwblhau prosiect archwilio/gwella ansawdd bob blwyddyn a fydd yn rhan o set ddata eu harfarniad blynyddol, (iv) rhannu'r canlyniadau o archwiliadau clinigol a'r perfformiad ar sail safonau cenedlaethol.	16/12/2019	Bydd y Panel yn cynnal adolygiad dilynol ar ôl chwe mis.	- Mae gan sesiynau archwilio clinigol bresenoldeb aml-broffesiwn. - Mae arweinwyr bydwreigiaeth a meddygon ymgynghorol ar gyfer archwiliadau wedi cael eu penodi. - Mae'n rhaid i'r holl staff meddygol gyflawni prosiect archwilio/gwella ansawdd bob blwyddyn neu yn ystod pob cylch ailddilysu, fel rhan o set ddata eu harfarniad blynyddol. - Mae canlyniadau archwiliadau'n cael eu rhannu drwy gyflwyniadau ar ddiwrnodau llywodraethu. - Mae'r archwiliadau unigol yn cael eu cofrestru a'u cofnodi drwy'r Adran Archwiliadau Clinigol. - Mae'r Panel wedi cael tystiolaeth ar ffurf rhestrau presenoldeb, agendâu a chofnodion cyfarfodydd ar gyfer fforymau a diwrnodau llywodraethu.
------	--	---	------------	--	--

7.28	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Arweinydd Gweithredol-y Bwrdd – Sicrhau y bydd yr unigolyn sy'n cyflawni'r rôl arweiniol ar ofal mamolaeth ar lefel y gweithredwyr yn gweithio gyda'r adran mamolaeth a bod y rôl hon yn effeithiol ac yn cael ei chefnogi. Bydd yr unigolyn hwn (i) yn gyfrifol am adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd ar gynnydd, yn enwedig tra bydd y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn yn cael eu datrys, (ii) yn deall ac yn hwyluso gwelliannau mewn adrodd ar faterion diogelwch a risg glinigol, (iii) yn darparu pwynt cyfeirio sengl ar gyfer cydgysylltu ag asiantaethau allanol, (iv) yn sicrhau bod yr holl adroddiadau gan asiantaethau allanol a rheoleiddwyr yn cael eu sianelu ar hyd un llwybr i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu dal dan sylw.	16/12/2019	Y penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd lechyd.	- Mae rôl arweiniol benodol ar lefel y gweithredwyr yn bodoli ar gyfer mamolaeth, ac mae hefyd yn Uwch-swyddog Cyfrifol i'r Rhaglen Gwella Mamolaeth. - Mae'r arweinydd hwn yn cerdded o amgylch y wardiau'n rheolaidd, ac yn sicrhau bod unrhyw bryderon a ddaw i'r amlwg yn cael eu huwchgyfeirio'n uniongyrchol i'r uwch arweinwyr a/neu'r Bwrdd drwy drefniadau llywodraethu. - Mae gan y Panel gysylltiad uniongyrchol â'r Uwch-swyddog Cyfrifol a'r fframwaith atebolrwydd a chyflawni a sefydlwyd, ac mae'n sicrhau bod yr holl gyfrifoldebau a nodwyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr yn cael eu cyflawni'n effeithiol.
------	--	---	------------	---	--

7.34	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Goruchwyliwyr Clinigol ac Addysgol – Dynodi goruchwyliwr clinigol a goruchwyliwr addysgol ar gyfer pob hyfforddai sydd mewn swydd ar hyn o bryd. Dylai rôl y goruchwyliwr clinigol a'r goruchwyliwr addysgol gael ei chofnodi a'i monitro'n fanwl gan y Cyfarwyddwr Addysg Feddygol. Rhaid i'r asesiadau o gymhwysedd hyfforddeion gael eu darparu'n fewnol o dan oruchwyliaeth tiwtor coleg o Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.	16/12/2019	Bydd y Panel yn cynnal adolygiad dilynol ar ôl chwe mis, i wneud yn siŵr bod yr arferion hyn wedi cael eu gwreiddio. Yn parhau i gyfathrebu ag Addysg a Gwellu Iechyd Cymru i gadarnhau ei asesiad o gydymffurfiaeth barhaus.	- Mae gan yr holl hyfforddeion oruchwyliwr addysgol a goruchwyliwr clinigol. - Mae unigolion penodol wedi cael eu henwi yn ystod y rhaglen gynefino. - Mae tystiolaeth wedi cael ei chyflwyno i'r Panel drwy'r Rhestr Dynodi Goruchwyliwyr Clinigol.
------	--	--	------------	---	--

7.40	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Sicrhau bod Bydwraig Glinigol Uwch ar gael – Adolygu sgiliau a chymwyseddau'r bydwraidd clinigol uwch sy'n cyflenwi dyletswyddau meddygon haen 1 er mwyn sicrhau (i) bod eu cwrpas ymarfer wedi'i ddiffinio'n glir, (ii) bod y Bwrdd Iechyd a'r unigolion yn cael eu diogelu rhag risg ymglyfreitha am gyflawni eu rolau estynedig.	16/12/2019	Y penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd Iechyd.	- Mae adolygiad wedi cael ei gynnal o'r cwrpas ymarfer. - Mae'r cymwyseddau a'r cwrpas ymarfer wedi cael eu rhannu. - Mae disgrifiad swydd newydd wedi cael ei gyflwyno i'r Panel. - Nid yw'n ymddangos bod risg yn gysylltiedig â'r rôl – mae'n ymarfer cydnabyddedig mewn nifer o Fyrdau Iechyd.
7.46	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Arweinwyr Clinigol/Rolau wedi'u Diffinio – Penodi arweinwyr clinigol mewn strwythur a fydd yn cynnal y gwasanaeth lle mae disgrifiadau ac amcanion diffiniedig ar gyfer y rolau. Bydd y strwythur yn cynnwys ymateb unigol ar gyfer pob un o'r canlynol (i) llywodraethu ac ansawdd clinigol, yn cynnwys diweddarau canllawiau, (ii) ansawdd data, (iii) addysg a hyfforddiant staff meddygol, (iv) hyfforddiant amlddisgyblaethol.	16/12/2019	Y penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd Iechyd.	- Mae arweinwyr clinigol wedi cael eu penodi o fewn strwythur penodol, ac mae angen ffurfioli'r trefniadau dros dro hyn. - Mae'r holl fforymau llywodraethu bellach yn gyfrifol am ddiweddarau a threfnu Meddyg Ymgynghorol Arweiniol ar gyfer yr Archwiliad sydd ar waith. - Bydwraig profiadau menywod: bydwraig arweiniol ar gyfer ymchwilio i bryderon a godwyd yn unol â'r rhaglen Gweithio i Wella. - Mae arweinydd gwybodeg wedi'i benodi ar gyfer ansawdd data, er mwyn helpu'r Fydwaig Ymgynghorol i adolygu data anghywir neu bryderon. - Wedi cael tystiolaeth drwy'r canlynol: - Strwythur Llywodraethu

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Ansawdd Profiadau Menywod a Theuluoedd					
Cyfeirnod y Cam Gweithredu:	Y Ffynhonnell	Yr Argymhelliad	Cytunwyd bod yr argymhelliad wedi cael ei gyflawni	Angen adolygiad dilynol?	Crynodeb o'r ymatebion a/neu'r dystiolaeth a gyflwynwyd
7.48	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr	Manteisio ar Gryfderau'r Cyngor Iechyd Cymuned – Defnyddio cryfderau'r Cyngor Iechyd Cymuned i (i) sicrhau adnoddau priodol er mwyn gallu bod yn eiriolwr effeithiol, (ii) darparu gwybodaeth i deuluoedd, (iii) ystyried y gefnogaeth mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn ei darparu i fenywod a theuluoedd, (iv) cynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned wrth ddechrau darparu Cyfleusterau Mamolaeth newydd.	16/12/2019	Parhaus	- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydweithio â'r Cyngor Iechyd Cymuned i sicrhau bod eiriolaeth annibynnol ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth. - Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd cynllunio ymgysylltu, ac mae hefyd wedi bod yn cefnogi digwyddiadau ymgysylltu yn ddiweddar. - Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth, ac yn cymryd rhan yn llawn. - Mae'r Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth yn mynychu holl gyfarfodydd llawn eraill y cyngor, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi cael ei wneud. - Mae defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd yn cael gwybodaeth am rôl y Cyngor Iechyd Cymuned. - Roedd gan y Cyngor Iechyd Cymuned stondin yn y digwyddiadau ymgysylltu er mwyn hyrwyddo ei wasanaeth ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. - Mae Eiriolwyr y Cyngor Iechyd Cymuned ar gael i gynnig cefnogaeth i fenywod y mae eu gofal clinigol yn cael ei adolygu. - Mae Prif Swyddog y Cyngor Iechyd Cymuned yn mynychu cyfarfodydd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth fel sylwedydd sy'n cymryd rhan yn y broses.

11 RHESTR O DERMAU

AC	Aelod Cynulliad
AaGiC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
AD	Adnoddau Dynol
ALI	Awdurdod Lleol
AMU	Uned gyfochrog dan arweiniad bydwagedd
Badgernet	System rheoli data cleifion yn y maes newyddenedigol
BI	Bwrdd Iechyd
BIP	Bwrdd Iechyd Prifysgol
BIPCT	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
BIPCT	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
BR+	Birthrate plus
CD	Cyfarwyddwr Clinigol
CEO	Prif Swyddog Gweithredol
CIC	Cyngor Iechyd Cymuned
CMB	Cyfarfod Bwrdd Clinigol
CMO	Prif Swyddog Meddygol
CNO	Prif Swyddog Nyrsio
COO	Prif Swyddog Gweithredol
CPD	Datblygiad proffesiynol parhaus
CSfM	Goruchwylwyr clinigol bydwagedd
CSR	Cyfraddau toriadau cesaraidd
CTG	Cardiotocograffeg
Datix	Meddalwedd diogelwch cleifion
DON	Cyfarwyddwr Nyrsio
EBC	Pob Baban yn Cyfrif

ELCS	Toriad cesaraidd dewisol
EMCS	Toriad cesaraidd dewisol brys
Euroking	System TG genedlaethol ar gyfer mamolaeth
GAP	Protocol asesu twf
Greatix	Cynllun yn seiliedig ar 'Datix' i gyfleu adborth cadarnhaol i staff
GROW	Pwysau gorau'n gysylltiedig â beichiogrwydd
HIE	Ensepalopathi isgemig hypocsaidd
HOM	Pennaeth Bydwreigiaeth
HOMAG	Penaethiaid Grwp Cynghori Bydwreigiaeth Cymru Gyfan
HSCSC	Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
HTA	Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
ICU	Uned Gofal Dwys
IMSOP	Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth
IOL	Prysuru'r esgor
IPAAF	Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd
LIC	Llywodraeth Cymru
KPI	Dangosyddion perfformiad allweddol
LNU	Uned newyddenedigol leol
LSA MO	Swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwyllo lleol
LSCS	Toriad cesaraidd y segment isaf
MBRRACE	Mamau a phlant: lleihau risg drwy archwiliadau ac ymholiadau cyfrinachol
MDT	Tim amlddisgyblaethol
MIB	Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth
MID	Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth
MIP	Rhaglen Gwella Mamolaeth
MITs	System Technoleg Gwybodaeth Mamolaeth (yn bwydo QlikSense)
MLC	Gofal dan arweiniad bydwragedd

MLU	Uned dan ofal bydwagedd
MPB	Bwrdd perfformiad mamolaeth
MSLC	Pwyllgor Cysylltu Gwasanaethau Mamolaeth
MVF	Fforwm Lleisiau Mamolaeth
NEWTT	System olrhain a sbarduno rhybudd newyddenedigol cynnar
NICU	Uned gofal dwys cynenedigol
NMPA	Archwiliad Mamolaeth a Chynenedigol Cenedlaethol
NNAP	Rhaglen Genedlaethol Archwilio Cynenedigol
O&G	Obstetreg a gynaecoleg
PADR	Adolygiad arfarnu a datblygu personol
PALS	Gwasanaeth Cyngori a Chydgysylltu Cleifion
PDM	Bydwraig datblygu ymarfer
PSAG	Cipolwg ar statws cleifion
PTR	Gweithio i Wella
Q&S	Ansawdd a Digelwch
QA	Sicrwydd Ansawdd
QlikSense	Meddalwedd gwybodaeth fusnes a dadansoddi gweledol
QSR	Ansawdd, Diogelwch a Risg
RCA	Dadansoddi gwraidd y broblem
RCA	Coleg Brenhinol yr Anasthetwyr
RCM	Coleg Brenhinol y Bydwagedd
RCOG	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr
RCPCH	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
RGH	Ysbyty Brenhinol Morgannwg
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru
SB	Marw-enedigaeth
SBAR	Byrfodd ar gyfer 'stillbirth, background, assessment and response' = 'marw-enedigaeth, cefndir, asesiad ac ymateb'

SCBU	Uned gofal arbenigol i fabanod
SCU	Uned gofal arbenigol
SFH	Uchder symfffysis-ffwndws
SGA	Bach o ystyried oed y ffetws
SI	Digwyddiad difrifol
SM	Mesurau arbennig
SMART	Byrfodd ar gyfer 'Specific, Measurable, Achievable, Relevant and Time-Based' = 'Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Perthnasol a Seiliedig ar Amser'
SOM	Goruchwylwr bydwagedd
SRO	Uwch-swyddog Cyfrifol
SUI	Digwyddiad difrifol nad adroddwyd amdano
SWP	Cynllun De Cymru
TI	Ymyriad wedi'i dargedu
Trac	Cronfa ddata fawr o 'fyrddau swyddi ar gyfer y sector iechyd a'r sector cyhoeddus
UG	Uned Gyflawni GIG Cymru
USS	Sgan uwchsain
WRP	Cronfa Risg Cymru

N.B. Geirfa generig yw hon sy'n ymdrin â thermau a ddefnyddiwyd neu a allai gael eu defnyddio yn adroddiadau'r Panel yn y dyfodol. Ni fydd pob un o'r termau o reidrwydd wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad penodol hwn.

